Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

# CEF Brynbuga a CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

12-22 Mai 2025





# Cynnwys

Cyflwyniad ..........3

Beth sydd angen ei wella yn CEF Brynbuga a CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed.......... 4

Ynglŷn â CEF Brynbuga a CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed.......... 5

Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau.......... 7

Adran 2 Arweinyddiaeth .......... 10

Adran 3 Diogelwch .......... 12

Adran 4 Parch .......... 19

Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol.......... 32

Adran 6 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau.......... 42

Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf ...... 47

Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau 50

Atodiad II Geirfa.......... 53

Atodiad III Rhagor o adnoddau .......... 55

# Cyflwyniad

Mae Brynbuga, carchar bach traddodiadol yr olwg ac sy'n dyddio o'r 19eg ganrif, yn garchar ailsefydlu categori C yn Sir Fynwy ar gyfer hyd at 276 o ddynion sy'n oedolion. O dan yr un rheolaeth weithredol, ond sydd ychydig filltiroedd i ffwrdd, mae Prescoed, carchar agored categori D ar gyfer hyd at 260 o ddynion sy'n oedolion.

Pan arolygwyd Brynbuga a Phrescoed yn 2021, fe wnaethom adrodd yn gadarnhaol iawn, ac yn yr arolygiad hwn, roeddem yn falch o weld bod y canlyniadau i garcharorion wedi gwella hyd yn oed yn fwy. Ar wahân i weithgarwch pwrpasol ym Mhrescoed, a oedd yn eithaf da yn ein barn ni, roedd pob prawf carchar iach arall yn y ddau sefydliad yn dda, ein hasesiad uchaf.

Roedd y ddau garchar yn ddiogel ac yn sefydlog a chafodd newydd-ddyfodiaid dderbyniad da, gydag unrhyw risgiau a berir gan garcharorion yn cael sylw cywir. Yn yr un modd, roedd y trefniadau diogelu yn amlddisgyblaethol ac yn effeithiol. Prin oedd y trais a'r dystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau, prin oedd unrhyw ddefnydd o rym a dim defnydd o wahanu. Ym Mhrescoed, roedd carcharorion yn ymgysylltu â'r drefn ac yn cael eu cymell ganddi. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo'n rhwystredig oherwydd yr amser a gymerodd iddynt gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro ac roedd tystiolaeth o ddiffyg gwaith a gweithgareddau.

Roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn gadarnhaol dros ben, a oedd wrth wraidd llwyddiant y carchardai. Roedd amodau byw yn dda ar y cyfan, ac roedd carcharorion yn gwerthfawrogi hynny. Fodd bynnag, roedd cyfleusterau hŷn yn y ddau sefydliad, yn enwedig ym Mhrescoed, yn dangos arwyddion anochel o draul. Roedd agweddau eraill ar fywyd bob dydd, gan gynnwys systemau i gefnogi gwneud iawn, ymgynghori, gofal iechyd a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, yn dda.

Roedd amser allan o'r gell yn llawer gwell nag a welwn fel arfer ac roedd mynediad at addysg, sgiliau a gwaith, ar y cyfan, yn galonogol, gydag un gwendid ym Mhrescoed, sef bod rhai carcharorion heb ddigon i'w wneud. Roedd gwaith da hefyd i gefnogi cysylltiadau teuluol, a oedd yn cael ei reoli'n dda er gwaethaf yr heriau diogelu cynhenid a wynebir gan boblogaeth Brynbuga. Roedd y gwaith i helpu carcharorion i symud ymlaen drwy eu dedfryd, lleihau eu risg a mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol yn dda, ac yn cael ei gefnogi gan ymyriadau a oedd yn diwallu eu hanghenion ailsefydlu ac anghenion diogelu'r cyhoedd.

Ym Mrynbuga a Phrescoed, dywedodd y rhan fwyaf o'r carcharorion a arolygwyd y byddai eu profiadau'n eu gwneud yn llai tebygol o aildroseddu. Roedd y ddau sefydliad yn glir ynghylch eu rôl o ran adsefydlu'r rheini yn eu gofal ac roeddent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau da drwy ddiwylliant cadarnhaol a pherthnasoedd effeithiol rhwng staff a charcharorion. Dylid llongyfarch y Llywodraethwr a'i staff am yr hyn maen nhw'n ei gyflawni.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF, Awst 2025

# Beth sydd angen ei wella yn CEF Brynbuga a CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd wyth o bryderon allweddol gennym, a dylid trin dau ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

## Pryderon â blaenoriaeth

1. **Nid oedd y ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith yn cefnogi pob dysgwr yn gyson i wneud cynnydd da, ac nid oedd yn ddigon ymatebol i newidiadau yn y boblogaeth ym Mhrescoed, gan adael rhai carcharorion heb ddigon i'w wneud.**

2. **Roedd oedi cyn rhyddhau carcharorion ar drwyddedau dros dro (ROTL) yn golygu nad oedd llawer o garcharorion ym Mhrescoed yn cael cyfle i gael ROTL yn brydlon, i'w helpu i baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau'n ddiogel ac mewn modd adeiladol.**

## Pryderon allweddol

3. **Ym Mhrescoed, nid oedd rhai ardaloedd cymunedol ac allanol yn cael eu glanhau'n iawn, ac nid oedd staff yn ddigon gweladwy ar yr adeiniau i orfodi safonau neu i gefnogi carcharorion.**

4. **Roedd cyfleusterau hunanarlwyo ym Mhrescoed yn rhy gyfyngedig i gefnogi carcharorion i baratoi ar gyfer byw'n annibynnol.**

5. **Roedd rhai gwendidau o ran llywodraethu gofal iechyd clinigol: roedd adrodd ar ddigwyddiadau yn isel ac nid oedd digon o fonitro ar feysydd fel presenoldeb mewn apwyntiadau a chlinigau cleifion allanol.**

6. **Nid oedd cleifion yn gallu cael, na chael ar bresgripsiwn, yr ystod gyfatebol o feddyginiaeth a oedd ar gael yn y gymuned.**

7. **Nid oedd hunanwerthusiad addysg, sgiliau a gwaith yn canolbwyntio'n gyson ar ansawdd yr addysgu nac yn ystyried yr holl ddata perthnasol fel sail i flaenoriaethau gwelliant.**

8. **Nid oedd digon o ffonau i garcharorion ym Mhrescoed ac nid oedd modd defnyddio llawer ohonynt mewn preifatrwydd.**

# Ynglŷn â CEF Brynbuga a CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed

**Tasg y carchar**
Mae Brynbuga yn garchar ailsefydlu a darparwr triniaeth troseddwyr rhyw cenedlaethol categori C ar gyfer dynion sy'n oedolion. Mae Prescoed yn garchar ailsefydlu agored i ddynion sy'n oedolion a dynion ifanc.

**Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler yr Eirfa) fel yr adroddwyd gan y carchar yn ystod yr arolygiad**

**Brynbuga**
Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 274
Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 159
Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 159
Capasiti gweithredol: 276

**Prescoed**
Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 249
Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 220
Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 220
Capasiti gweithredol: 260

**Poblogaeth y carchar**
**Brynbuga**
- 156 o garcharorion newydd yn cyrraedd bob blwyddyn (tua 13 y mis).
- 7% o garcharorion o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol.
- 82 carcharor wedi cael eu rhyddhau i'r gymuned yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 40 o garcharorion yn cael cymorth camddefnyddio sylweddau.
- Caiff saith o garcharorion eu hatgyfeirio at asesiad iechyd meddwl bob mis.

**Prescoed**
- 390 o garcharorion newydd yn cyrraedd bob blwyddyn (tua 33 y mis).
- 48.6% o garcharorion yn cael rhyw fath o ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL).
- 12% o garcharorion o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol.
- 24 carcharor yn cael eu rhyddhau i'r gymuned bob mis.
- 65 o garcharorion yn cael cymorth camddefnyddio sylweddau.
- Caiff naw o garcharorion eu hatgyfeirio at asesiad iechyd meddwl bob mis.

**Statws carchar a darparwyr allweddol**
Cyhoeddus

Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Darparwr iechyd meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: Dyfodol
Darparwr iechyd deintyddol: yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: HMPPS

Contractwr hebrwng: GEOAmey

**Grŵp carchardai**
HMPPS Cymru

**Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar**
Giles Mason

**Hanes cryno**
Agorodd Brynbuga yn 1844 fel tŷ cywiro. Yn 1870, daeth yn garchar sirol i Sir Fynwy ac arhosodd yn y rôl honno tan 1922, pan gaeodd. Ail-agorodd yn 1939 fel borstal caeedig tan 1964, pan ddaeth yn ganolfan gadw. Yn 1983, daeth yn ddalfa i bobl ifanc, ac o 1988 i 1990, yn sefydliad i droseddwyr ifanc. Ers Mai 1990, mae wedi bod yn sefydliad categori C i ddynion sy'n oedolion ac sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhyw yn bennaf. Daeth Brynbuga yn garchar ailsefydlu yn 2019.

Agorodd Prescoed yn 1939 fel borstal agored. Daeth yn ganolfan gadw yn 1964 ac yn ddalfa agored i bobl ifanc yn 1983. Yn 1988 daeth yn sefydliad troseddwyr ifanc, a oedd hefyd yn derbyn dynion a oedd yn oedolion categori D rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Ers 2004, mae wedi bod yn garchar agored i ddynion sy'n oedolion yn unig, gan gynnwys oedolion ifanc rhwng 18 a 21 oed.

**Disgrifiad byr o unedau preswyl**
**Brynbuga**
Adeiniau A, B a C - landins dau lawr; derbynfeydd newydd ar adain C
Adain D - un llawr gydag uned uwch ar gyfer carcharorion dan ddedfryd oes a'r rheini sy'n bwrw dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP), carcharorion tymor hir a charcharorion sy'n cael eu cymell i fyw heb sylweddau (IFSL).

**Prescoed**
12 uned breswyl gyda chymysgedd o gelloedd sengl a dwbl, dau dŷ pâr sy'n dal hyd at wyth carcharor tymor hwy sy'n paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau, a 40 'pod' gyda llety sengl, en-suite. Mae'r ardaloedd penodol yn cynnwys:
Uned Pugh - carcharorion yn ystod y cyfnod sefydlu
Uned Mitchell – llety un ystafell mwy ar gyfer y rhai sydd dros 50 oed a charcharorion sy'n gweithio yn y gymuned.
Uned Gates - uned ddynodedig heb sylweddau.

**Enw'r llywodraethwr a dyddiad dechrau ar ei swydd**
Rob Denman, Gorffennaf 2021

**Newidiadau i lywodraethwyr ers yr arolygiad diwethaf**
Giles Mason hyd at fis Gorffennaf 2021.

**Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol**
Roberta Morris

**Dyddiad yr arolygiad diwethaf**
14–25 Mehefin 2021

# Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

## Canlyniadau i garcharorion


1.1 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach: diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a pharatoi ar gyfer rhyddhau (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y carchar (gweler Adran 2).

1.2 Yn yr arolygiad hwn o CEF Brynbuga, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:

- yn dda ar gyfer diogelwch
- yn dda ar gyfer parch
- yn dda ar gyfer gweithgarwch pwrpasol
- yn dda o ran paratoi ar gyfer rhyddhau.

1.3 Y tro diwethaf i ni arolygu CEF Brynbuga oedd yn 2021. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach CEF Brynbuga 2021 a 2025**





1.4 Yn yr arolygiad hwn o CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:

- yn dda ar gyfer diogelwch
- yn dda ar gyfer parch
- yn weddol dda o ran gweithgarwch pwrpasol
- yn dda o ran paratoi ar gyfer rhyddhau.

1.5 Y tro diwethaf i ni arolygu CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed oedd yn 2021. Mae Ffigur 2 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 2: Canlyniadau carchar iach CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Prescoed 2021 a 2025**




## Cynnydd gyda'r prif bryderon ac argymhellion

1.6 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2021, gwnaethom 20 o argymhellion. Roedd dau ohonynt yn ymwneud â meysydd o bryder allweddol. Derbyniodd y carchar 17 o'r argymhellion yn llwyr a derbyn un yn rhannol (neu'n ddibynnol ar adnoddau). Gwrthododd ddau o'r argymhellion.

1.7 Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y ddau argymhelliad am feysydd o bryder allweddol ar gyfer parch wedi'u cyflawni. Roedd yr holl argymhellion eraill, ac eithrio un ar gyfer parch ac un o ran paratoi ar gyfer rhyddhau, wedi'u cyflawni neu wedi'u cyflawni'n rhannol. Ewch i Adran 7 i weld y rhestr lawn o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Arferion cadarnhaol nodedig

1.8 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel:

> Tystiolaeth bod ein disgwyliadau'n cael eu bodloni i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu ddulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

1.9 Canfu'r arolygwyr chwe enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn, y gallai carchardai eraill ddysgu ohonynt neu eu hefelychu. Oni nodir yn wahanol, nid yw'r enghreifftiau hyn yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, maent yn giplun o adeg benodol ac efallai na fyddant yn addas ar gyfer sefydliadau eraill. Maent yn dangos rhai o'r

ffyrdd y gellid bodloni ein disgwyliadau, ond nid dyma'r unig ffordd o bell ffordd.

| Enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig | | |
|---|---|---|
| a) | Ym Mrynbuga, roedd gardd synhwyraidd groesawgar a hygyrch yn yr awyr agored ar agor i bob carcharor ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr. | Gweler paragraff 4.8 |
| b) | Gwnaeth y tîm niwroamrywiaeth yn siŵr bod carcharorion yn cael cymorth wedi'i dargedu o'r cyfnod sefydlu hyd at eu rhyddhau. Rhoddodd 'Pasbortau' ar gyfer carcharorion niwroamrywiol well dealltwriaeth i staff o'u pryderon disgwyliedig mewn sefyllfaoedd llawn straen, fel dyfarniadau. | Gweler paragraffau 4.23,5.31 |
| c) | Roedd y gaplaniaeth yn cydlynu nifer fawr o ymwelwyr gwirfoddol â'r carchar a oedd yn cael hyfforddiant rheolaidd, ac yn cefnogi llawer o garcharorion na fyddent fel arall wedi cael ymweliadau. | Gweler paragraff 4.30 |
| d) | Ym Mhrescoed, roedd carcharorion yn elwa o weithio mewn fferm weithredol gwbl fasnachol lle gallent ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a chymwysterau galwedigaethol, i gefnogi'r broses o bontio i waith ar ôl cael eu rhyddhau. | Gweler paragraff 5.19 |
| e) | Ym Mrynbuga, roedd rhai carcharorion a'u plant yn elwa o gyfarfodydd rhieni-athrawon yn dilyn asesiad risg. Cynigiwyd taith a chyflwyniad i'r carchar i athrawon hefyd, a oedd yn rhoi gwybod iddynt am gyd-destun y carchar a'r profiad ymweld i'r plentyn, gan eu helpu i ddarparu gwell cefnogaeth. | Gweler paragraff 6.4 |
| f) | Roedd y darparwr gwasanaethau teulu wedi gwneud cysylltiadau â chwmnïau cyfreithiol lleol, ac roedd clinigau cyngor cyfreithiol am ddim ar faterion teuluol bellach ar gael ym Mrynbuga. | Gweler paragraff 6.4 |

# Adran 2 Arweinyddiaeth

**Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i garcharorion.** (I gael diffiniad o arweinwyr, gweler yr Eirfa)

2.1 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i sbarduno gwelliannau a dylai arwain at well canlyniadau i garcharorion. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth gyda thystiolaeth o ffynonellau gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau â rhanddeiliaid ac arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.

2.2 Roedd arweinwyr yn agos-atoch ac yn brofiadol, ac roedd staff yn y ddau garchar yn gadarnhaol am eu morâl a'u hymrwymiad. Roedd lefelau staffio, profiad a chadw staff i gyd yn dda.

2.3 Roedd arweinwyr wedi cynnal diwylliant cadarnhaol yn y ddau safle ac roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn teimlo bod eu profiad yn y carchar wedi eu gwneud yn llai tebygol o aildroseddu. Roedd hyn er gwaethaf cynnydd yn nifer y carcharorion arhosiad byr ym Mhrescoed oherwydd pwysau poblogaeth cenedlaethol, a llai o garcharorion yn cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Roedd arweinwyr unedau rheoli troseddwyr (OMU) profiadol wedi meithrin timau cryf yn y ddau garchar, ac roedd rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POM, gweler Geirfa) yn cynnal cyswllt da â charcharorion.

2.4 Roedd arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer addysg, hyfforddiant a gwaith, a oedd yn ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur ac a oedd wedi arwain at ganlyniadau cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd i garcharorion. Roedd arweinwyr HMPPS wedi buddsoddi yn fferm y carchar, adnodd rhagorol, gan ddarparu cyflogaeth a sgiliau i rai carcharorion a oedd fel arall yn anodd eu lleoli ym Mhrescoed. Fodd bynnag, nid oedd y ddarpariaeth cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg ym Mhrescoed yn ddigon ymatebol i'r newid ym mhoblogaeth y carchar, ac roedd llawer o garcharorion a oedd yn gweithio yn y carchar heb ddigon i'w wneud. Ni chafwyd dadansoddiad diweddar o anghenion cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.

2.5 Gweithiodd arweinwyr gwasanaethau teulu a charchardai gyda'i gilydd yn dda, a chafodd y cyntaf gefnogaeth i gyflawni darpariaeth ragorol ac arloesol er gwaethaf cyllid cyfyngedig.

2.6 Ym Mhrescoed, roedd arweinwyr wedi bod yn araf yn buddsoddi mewn gwelliannau mewn meysydd pwysig, fel y llety sy'n hen a ffonau annigonol. Roedd diffyg dychymyg arweinyddiaeth hefyd wedi arwain at gyfleusterau coginio a oedd yn rhy gyfyngedig i boblogaeth carchar agored.

2.7 Yn y ddau garchar, roedd arweinwyr gofal iechyd wedi meithrin lefel uchel o ymrwymiad yn y grŵp staff a diwylliant cadarnhaol, a

ddisgrifiwyd gan garcharorion fel un anfeirniadol a gofalgar. Fodd bynnag, roedd rhai agweddau ar lywodraethu gofal iechyd yn wan, gan gynnwys rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd arweinwyr ar draws diogelwch yn frwd dros sicrhau canlyniadau da i garcharorion, a oedd yn adrodd yn gadarnhaol ar y cymorth a gawsant gan y tîm dalfa fwy diogel.

2.8 Er gwaethaf canlyniadau da ar y cyfan, mewn amrywiaeth o feysydd, nid oedd data'n cael ei gasglu na'i ddefnyddio'n ddigon da i hyrwyddo gwelliant parhaus, gan gynnwys mewn ROTL, addysg a gofal iechyd.

# Adran 3 Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

## Dyddiau cynnar yn y carchar

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r gweithdrefnau sefydlu'n gynhwysfawr.

3.1 Roedd llif cyson o bobl newydd yn cyrraedd y ddau garchar, tua 13 y mis ym Mrynbuga a 33 y mis ym Mhrescoed. Roedd y gefnogaeth i garcharorion yn eu dyddiau cynnar yn dda ar y cyfan, ac yn ein harolwg dywedodd 94% o garcharorion yn y ddau safle eu bod yn cael eu trin yn dda yn y dderbynfa.

3.2 Roedd y derbynfeydd yn sylfaenol ond yn lân. Roedd cefnogwyr cymheiriaid yn cyfarfod yr holl newydd-ddyfodiaid a oedd yn siarad â nhw am fywyd yn y carchar, ond ychydig o wybodaeth ysgrifenedig oedd ar gael.




**Derbynfa CEF Brynbuga (chwith) a Derbynfa CEF Prescoed**

3.3 Cynhaliodd rheolwyr dalfa gyfweliadau diogelwch cychwynnol yn breifat yn y dderbynfa gyda newydd-ddyfodiaid, gan nodi risgiau a gwendidau. Rhannwyd unrhyw bryderon a nodwyd gyda staff yn yr uned sefydlu. Roedd y broses dderbyn yn weddol gyflym, roedd eiddo carcharorion yn cael ei brosesu ar unwaith ar ôl cyrraedd, ac roeddent yn cael mynd â'r holl eitemau mewn meddiant gyda nhw i'r uned sefydlu.

3.4 Cafodd pob carcharor gyfweliad noson gyntaf gyda staff sefydlu, ond nid oeddent bob amser yn cael cynnig galwad ffôn am ddim. Dywedodd y mwyafrif helaeth o garcharorion (93% ym Mrynbuga a 91% ym Mhrescoed) eu bod yn teimlo'n ddiogel ar eu noson gyntaf, a

chynhaliwyd archwiliadau diogelwch ychwanegol yn ystod eu 24 awr gyntaf.

3.5 Roedd y cyfnod sefydlu dros bythefnos wedi'i strwythuro'n dda ac roedd yn cynnwys llawer o fewnbwn gan gefnogwyr cymheiriaid, yn ogystal ag adrannau allweddol yn y carchardai. Yn ein harolygon, dywedodd y rhan fwyaf o garcharorion a oedd wedi cael cyfnodau sefydlu (87% ym Mrynbuga, 72% ym Mhrescoed) eu bod yn dweud wrthynt beth yr oedd angen iddynt ei wybod.

## Annog ymddygiad cadarnhaol

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy’n cael ei drefnu’n dda lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a’i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

### Annog ymddygiad cadarnhaol

3.6 Roedd lefelau trais yn isel iawn: yn ystod y 12 mis blaenorol, cofnodwyd pum ymosodiad ym Mrynbuga, ac nid oedd yr un ohonynt yn erbyn staff. Roedd pob un ohonynt yn ddigwyddiadau eithaf lefel isel nad oeddent wedi arwain at anaf corfforol sylweddol. Ni fu unrhyw ymosodiadau ym Mhrescoed.

3.7 Roedd ymddygiad cadarnhaol carcharorion yn cael ei gefnogi gan ethos cymunedol cryf yn y ddau garchar, yn enwedig ym Mrynbuga. Roedd hyn yn seiliedig ar berthynas dda rhwng staff a charcharorion, amrywiaeth eang o rolau cymorth gan gymheiriaid ac amser gwerthfawr iawn allan o'r gell. Yn ein harolwg ym Mrynbuga, dywedodd 59% o garcharorion fod y diwylliant yn y carchar yn eu hannog i ymddwyn yn dda, o'i gymharu â'r cymharydd o 38%.

3.8 Ym Mhrescoed, dywedodd llawer o garcharorion eu bod yn gwerthfawrogi'r amgylchedd agored ac nad oeddent am fentro dychwelyd i amodau caeedig. Roedd rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) a'r cyfle i fyw yn y podiau neu'r tai hefyd yn gymhellion allweddol; er bod amseroedd aros hirach ar gyfer asesiadau ROTL wedi cynyddu rhwystredigaeth ymysg y rhai a gyrhaeddodd yn ddiweddar (gweler paragraff 6.16). Roedd gan garcharorion yn y tai fynediad at gegin, peiriant golchi, ystafell fyw a gardd, a dywedasant wrthym y gallent fyw bywyd mwy normal.

**Prescoed: blaen y tai (chwith) a phodiau**

3.9 Dywedodd mwy o ymatebwyr i'n harolwg ym Mhrescoed nag mewn carchardai agored eraill eu bod yn teimlo'n anniogel ar hyn o bryd (12% o'i gymharu â 4%). Roedd lleiafrif o garcharorion wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol ac roedd tystiolaeth bod rhai ohonynt wedi cael eu bwlio. Er bod y pryder hwn wedi cael ei ymchwilio'n eithaf da, nid oedd camau gweithredu, cefnogaeth barhaus a monitro wedi bod yn ddigon da i ddatrys y broblem. Serch hynny, dim ond wyth achos o ddianc a gafwyd yn ystod y pedair blynedd ers yr arolygiad diwethaf, sy'n awgrymu bod y rhan fwyaf o garcharorion yn teimlo'n weddol ddiogel.

3.10 Cafodd carcharorion a oedd yn arddangos ymddygiad gwael ymateb unigol yn y ddau safle. Roedd unrhyw un a ddychwelodd i amodau caeedig o Brescoed (gweler paragraff 3.24) yn destun adolygiad trylwyr i ddechrau. Roedd saith carcharor wedi cael eu trosglwyddo o Frynbuga yn ystod y flwyddyn hyd yma am resymau y gellir eu cyfiawnhau, yn ymwneud ag ymddygiad treisgar neu aflonyddgar.

3.11 Cafodd atgyfeiriadau carcharorion at gynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP, gweler Geirfa) eu gwneud yn briodol mewn ymateb i adroddiadau o drais a bwlio yn y ddau safle, a chawsant eu rheoli drwy'r cyfarfod ymyriadau diogelwch wythnosol (SIM). Roedd dau gynllun wedi cael eu hagor yn ddiweddar ar gyfer carcharorion ym Mhrescoed yn dilyn adroddiadau o erledigaeth, ac roeddent yn cofnodi cefnogaeth dda. Ym Mrynbuga, caewyd rhai cynlluniau cyn i'r camau gweithredu a nodwyd gael eu cwblhau.

3.12 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion ar lefel uwch y polisi cymhellion (86% ym Mrynbuga a 98% ym Mhrescoed). Ym Mrynbuga, roedd cyfarfod adolygu cymhellion misol amlddisgyblaethol yn mynd ati i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael ac yn cydnabod ymddygiad da. Roedd yn ystyried carcharorion a oedd wedi cael dau rybudd ac unrhyw rai nad oeddent eisoes ar statws uwch. Rhoddwyd adborth unigol i garcharorion ar sut roedd angen iddynt wella eu hymddygiad neu rhoddwyd tystysgrifau iddynt os oeddent wedi bodloni'r gofynion ar gyfer lefel uwch.

3.13 Ym Mhrescoed, un o fanteision allweddol lefel uwch oedd y cyfle i gael ROTL hirach dros nos. Roedd y ffaith bod llai o garcharorion bellach yn gallu cael ROTL (gweler paragraff 6.16) yn effeithio ar eu barn am

werth y cynllun cymhellion, a dywedodd llawer wrthym eu bod yn teimlo nad oedd llawer o wahaniaeth bellach rhwng y lefelau cymhelliant.

### Dyfarniadau

3.14 Ychydig o ddyfarniadau a gafwyd yn y naill garchar neu'r llall, gyda 37 ym Mrynbuga a 65 ym Mhrescoed yn ystod y chwe mis blaenorol. Roedd ychydig o ddyfarniadau'n weddill ym Mhrescoed, a oedd fel arfer wedi cael eu dechrau mewn sefydliadau a anfonodd y carcharor ac yna heb eu nodi na'u datrys ar ôl trosglwyddo. Ym Mrynbuga, roedd rhai gwendidau yn yr ymchwiliad ac ni fwriwyd ymlaen â llawer gormod o ddyfarniadau o ganlyniad i gamgymeriadau staff. Roedd arweinwyr wedi nodi'r ddau fater drwy sicrhau ansawdd, ac roeddent yn cymryd camau. Roedd y dirprwy lywodraethwr yn sicrhau ansawdd cofnodion dyfarnu ac yn rhoi adborth, a chafwyd cyfarfod safoni i fonitro dyfarniadau.

3.15 Yn gyffredinol, roedd arweinwyr yn defnyddio dull adsefydlu drwy ddefnyddio rhybuddion a gohirio dyfarniadau i roi cyfleoedd i garcharorion newid, ond nid oedd unrhyw ddefnydd o wneud iawn â'r gymuned. Roedd pasbortau cymorth niwroamrywiaeth (gweler paragraffau 4.22 a 5.31) ar gael yn yr ystafell ddyfarnu ym Mrynbuga i helpu llywodraethwyr i gyfathrebu'n fwy effeithiol â charcharorion perthnasol.

### Defnyddio grym

3.16 Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o rym: yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu pum defnydd ym Mrynbuga a thri ym Mhrescoed, a oedd yn afaelion tywys lefel isel yn bennaf neu'n defnyddio gefynnau wrth hebrwng. Roedd defnyddio gefynnau'n rheolaidd ar gyfer symud carcharorion yn ôl i amodau caeedig a welsom yn yr arolygiad diwethaf wedi cael ei atal, ac nid oedd llawer o garcharorion a oedd yn mynd i apwyntiadau ysbyty yn cael eu rhoi mewn gefynnau yn dilyn asesiadau risg unigol.

3.17 Roedd y gwaith o oruchwylio grym yn dda ar y cyfan. Adolygodd y rheolwyr ddigwyddiadau yn y SIM wythnosol (gweler paragraff 3.11) ac roedd pob un wedi'i gofnodi ar gamerâu corff y staff. Yn y deunydd fideo a adolygwyd gennym, roedd grym yn briodol ac yn gyfiawn, roedd camerâu wedi cael eu rhoi ar waith yn gyflym, a gwelsom rai enghreifftiau da o staff yn gofalu am les carcharorion wrth geisio tawelu'r sefyllfa'n gyflym. Fodd bynnag, nid oedd pob carcharor yn cael ôl-drafodaeth yn ddiweddarach i atal hyn rhag digwydd eto nac yn cael esboniad ynghylch pam roedd grym wedi cael ei ddefnyddio arnynt.

### Gwahanu

3.18 Nid oedd uned wahanu yn y naill garchar na'r llall ac roedd cael eich cyfyngu i'r gell yn brin iawn. Ym Mrynbuga, roedd rhai carcharorion wedi cael eu cadw ar wahân yn eu celloedd am gyfnodau byr, ond nid oedd hyn wedi cael ei gofnodi'n ganolog er mwyn gallu goruchwylio a monitro.

3.19 Ym Mhrescoed, roedd carcharorion a oedd yn dychwelyd i amodau caeedig yn cael eu cadw mewn un o ddwy gell aros, ac roedd un ohonynt yn cynnwys cadair a'r llall yn cynnwys gwely; nid oedd toiled yn yr un ohonynt. Cofnodwyd 16 defnydd o'r ystafelloedd aros hyn yn ystod y flwyddyn hyd yma, pedwar ohonynt dros nos, gydag un yn fwy nag 16 awr. Roedd y cofnodion yn brin o fanylion ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn manylu ar y cyfiawnhad na'r awdurdodiad i'w defnyddio. Nid oedd yr arweinwyr yn goruchwylio'r defnydd o'r cyfleuster.





**Celloedd aros Prescoed**

## Diogelwch

Canlyniadau disgwyliedig: Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal drwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys cudd-wybodaeth effeithiol am ddiogelwch a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn cael eu diogelu rhag dod i gysylltiad â defnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol ar waith i leihau'r cyflenwad cyffuriau.

3.20 Fel yn ein harolygiad diwethaf, roedd gwahanol anghenion diogelwch y ddau safle'n cael eu rheoli gan arweinwyr a thimau diogelwch ar wahân. Roedd hyn yn parhau i weithio'n dda, ac roedd mesurau diogelwch yn gymesur â'r risgiau a nodwyd a'r wybodaeth a gafwyd ym mhob safle. Roedd carcharorion yn parhau i elwa o digon o ryddid i symud.

3.21 Cafodd pob safle asesiad tactegol lleol manwl, a oedd yn cynnwys bygythiadau i ddiogelwch y carchardai a chamau gweithredu addas i leihau'r rhain. Roedd cudd-wybodaeth yn cael ei rheoli'n dda, gyda chysylltiadau da rhwng y carchardai, y gwasanaethau cyffuriau a'r heddlu, ac roedd timau diogelwch yn ymateb i bryderon a oedd yn codi.

3.22 Roedd y cyfraddau profi cyffuriau gorfodol ar hap positif (MDT, gweler Geirfa) yn isel yn y ddau garchar (0.61% ym Mrynbuga a 3.25% ym Mhrescoed). Cynhaliwyd profion ar sail amheuaeth a dadansoddwyd data i ganfod tueddiadau mewn cyffuriau a oedd yn peri pryder. Roedd lleihau'r cyflenwad cyffuriau yn parhau i fod yn flaenoriaeth diogelwch, gan roi sylw da i'r risgiau o gamddefnyddio cyffuriau. Ym Mhrescoed, lle'r oedd risgiau a chudd-wybodaeth am ddefnyddio cyffuriau

anghyfreithlon yn uwch, roedd strategaeth cyffuriau a chynllun gweithredu lleihau'r cyflenwad.

3.23 Cynhaliwyd chwiliadau ar sail cudd-wybodaeth yn y ddau safle mewn ymateb i bryderon a adroddwyd, a defnyddiwyd timau chwilio arbenigol yn ôl yr angen. Ym Mrynbuga, cafodd 10% o garcharorion eu diosg-chwilio yn dilyn ymweliadau, ond nid oedd y penderfyniad yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn unol â chudd-wybodaeth.

3.24 Ym Mhrescoed, roedd 95 o garcharorion wedi cael eu dychwelyd i amodau caeedig yn y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys pawb y canfuwyd eu bod wedi defnyddio cyffuriau dosbarth A neu B. Roedd atgyfeiriadau at wasanaethau camddefnyddio cyffuriau bellach yn cael eu gwneud cyn trosglwyddo, i sicrhau bod carcharorion yn cael eu nodi ar gyfer cymorth. Roedd chwe charcharor wedi aros yn y carchar yn ystod y 12 mis blaenorol ar ôl torri'r rheolau ar ôl asesiad unigol.

## Diogelu

Canlyniadau disgwyliedig: Mae’r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy’n lleihau’r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei adnabod, ei amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod ac yn cael gofal a chymorth effeithiol.

### Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

3.25 Ni chafwyd yr un farwolaeth hunanachosedig ers yr arolygiad blaenorol yn 2021. Roedd adroddiad crwner ar atal marwolaethau yn y dyfodol a gyhoeddwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf yn ymwneud â marwolaeth a achoswyd gan yr unigolyn ei hun yn 2019. Roedd y carchar wedi gweithredu ar yr adroddiad, ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

3.26 Ychydig iawn o hunan-niweidio a gofnodwyd, heb unrhyw ddigwyddiadau ym Mhrescoed a 10 digwyddiad ym Mrynbuga yn y flwyddyn flaenorol, ac nid oedd yr un ohonynt wedi bod yn ddifrifol.

3.27 Roedd cyfarfod dalfa fwy diogel rheolaidd ar y cyd yn cynnwys y ddau safle. Roedd yr holl garcharorion a oedd yn cael eu cefnogi drwy reoli achosion asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) yn cael eu trafod yn fanwl yn y SIM wythnosol (gweler paragraff 3.11). Roedd carcharorion nad oeddent ar ACCT a oedd â lefel uchel o angen hefyd yn cael cymorth drwy broses cyfarfod amlddisgyblaethol ar wahân.

3.28 Adeg yr arolygiad, roedd un carcharor ym Mrynbuga yn destun monitro ACCT a gwelsom dystiolaeth o fewnbwn amlddisgyblaethol da mewn adolygiadau. Roedd y broses ar gyfer agor ACCT i garcharorion a drosglwyddwyd o sefydliadau eraill yn annigonol ac nid oedd digon o gynllunio gofal.

3.29 Roedd gwrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i roi cefnogaeth emosiynol gyfrinachol i gyd-garcharorion) ar gael yn y ddau safle ond nid oeddent yn cael llawer o ddefnydd, yn enwedig ym Mhrescoed. Roedd 11 achos o alw ar Wrandawyr yn ystod y 12 mis blaenorol. Cafodd y cynllun gefnogaeth dda gan y Samariaid yn y ddau safle.

3.30 Yn ystod ein hymweliadau nos, nid oedd yr holl staff yn cario cyllyll atal-clymau. Roedd rhai staff, ond nid pob un, yn gallu nôl y rhain o'u heiddo personol.

**Diogelu oedolion sydd mewn perygl (gweler yr Eirfa)**

3.31 Cymerodd y llywodraethwr ran weithredol yn y bwrdd lleol diogelu oedolion. Roedd polisi diogelu rhesymol ar waith ac yn cael ei adolygu. Roedd hyfforddiant diogelu ac atal hunanladdiad a hunan-niweidio i lawer o staff wedi dod i ben; roedd arweinwyr wedi cydnabod y broblem ac roeddent bellach yn rhoi mwy o flaenoriaeth i hyfforddiant.

# Adran 4 Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy’n parchu eu hurddas.**

## Perthynas rhwng staff a charcharorion

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu cyfnod yn y carchar ac fe’u hanogir i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a’u penderfyniadau eu hunain.

4.1 Roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn dda ar y cyfan yn y ddau garchar. Cafodd carcharorion Brynbuga lawer iawn o amser allan o'r gell (gweler paragraff 5.1), a oedd yn rhoi cyfleoedd rheolaidd iddynt siarad â staff, a gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar. Roedd gan y rhan fwyaf o staff Brynbuga wybodaeth dda am y carcharorion, ac yn ein harolwg dywedodd 85% o garcharorion a oedd â gweithiwr allweddol (gweler yr Eirfa) eu bod yn ddefnyddiol, yn erbyn y cymharydd o 73%. Roedd y gweithwyr allweddol a ddyrannwyd i garcharorion yn gyson ac yn cysylltu'n dda â'r uned rheoli troseddwyr (OMU), ac roedd y rhan fwyaf o'r nodiadau achos a adolygwyd gennym yn dangos cyfweliadau wedi'u strwythuro'n dda. Fodd bynnag, nid oedd gan bob carcharor ym Mrynbuga weithiwr allweddol a chymerodd 52 diwrnod ar gyfartaledd i garcharorion newydd gael eu sesiwn gwaith allweddol gyntaf, a oedd yn rhy hir.

4.2 Gwelsom ryngweithio cyfeillgar ar y cyfan rhwng staff a charcharorion, a oedd yn parchu ei gilydd, er nad oedd swyddogion i'w gweld ar yr adeiniau ar y cyfan. Gallai carcharorion enwi eu gweithiwr allweddol, ond roedd y cyswllt fel arfer yn cynnwys sesiynau cyswllt ysgafn; yn ein harolwg, dim ond 64% o'r ymatebwyr ym Mhrescoed ddywedodd fod eu swyddog personol yn ddefnyddiol, yn erbyn y cymharydd o 77%.

4.3 Roedd gan y ddau garchar amrywiaeth eang o weithwyr cymheiriaid yn cynnig cymorth mewn meysydd gan gynnwys sefydlu, cydraddoldeb, niwroamrywiaeth a chymorth i garcharorion hŷn. Roedd y rhan fwyaf o weithwyr cymheiriaid yn cael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol, ac roeddent yn gadarnhaol am y cyfleoedd a gawsant i wneud gwaith defnyddiol.

## Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy’n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae’r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

### Amodau byw

4.4 Ar y cyfan, roedd carcharorion yn gadarnhaol am eu hamodau byw yn y ddau safle. Roedd Brynbuga yn lân, yn daclus ac heb graffiti ar draws pob uned, ac roedd staff yn cynnal archwiliadau gwedduster dyddiol. Y gŵyn fwyaf gan garcharorion oedd gorfod rhannu celloedd bach, cyfyng heb lawer o le storio a golau naturiol. Lliniarwyd hyn gan lawer o amser allan o'r gell i bawb yn ystod y dydd, tra nad oedd y rhai a oedd yn byw ar adain D wedi'u cloi i mewn dros nos chwaith, gan roi mynediad cyson iddynt i ardaloedd cymunedol.

4.5 Ym Mhrescoed, roedd y rhan fwyaf o'r celloedd yn fwy eang ac roedd mwy o gyfleoedd ar gyfer llety sengl. Fodd bynnag, roedd llawer o'r unedau wedi dirywio ac yn fudr, ac nid oedd llawer o lanhau. Er enghraifft, roedd olion yr wyau a daflwyd ar ffenestr ychydig wythnosau cyn yr arolygiad i'w gweld o hyd. Nid oedd digon o ddeunyddiau glanhau ar gael yn hawdd, ac nid oedd staff yn goruchwylio'r gwaith glanhau yn ddigonol.

4.6 Roedd rhywfaint o'r llety pod a welsom mewn cyflwr budr ond roedd carcharorion a oedd yn byw yno yn gwerthfawrogi'r gofod preifat. Roedd cynlluniau i adeiladu mwy o'r rhain yn ystod y flwyddyn nesaf i gynyddu capasiti'r safle.




**Cell ddwbl gyfyng CEF Brynbuga (chwith uchaf); cell CEF Prescoed (dde uchaf); Wyau ar ffenestri CEF Prescoed (gwaelod, chwith); cell Uned Mitchell yn CEF Prescoed (gwaelod, dde)**

4.7 Roedd rhai cawodydd a thoiledau ar draws y ddau safle mewn cyflwr gwael. Nid oedd gan y cawodydd ym Mrynbuga breifatrwydd, ac roedd y cawodydd a'r toiledau ym Mhrescoed yn drewi, gyda rhai ddim yn gweithio. Fodd bynnag, roedd gwaith adnewyddu eisoes wedi dechrau ym Mhrescoed ac roedd yr un uned a oedd wedi cael ei chwblhau wedi gwella'n sylweddol.

4.8 Roedd yr ardaloedd allanol yn y ddau safle yn cael eu cynnal yn dda iawn ac roedd carcharorion yn gwerthfawrogi'r amgylchedd agored a gwyrdd o amgylch Prescoed yn fawr. Roedd un iard ymarfer corff ar gyfer pob carcharor ym Mrynbuga, gyda seddi a rhywfaint o offer a gemau ymarfer corff yn yr awyr agored. Roedd gardd synhwyraidd ddeniadol a hygyrch wedi cael ei chreu ym Mrynbuga i wella lles carcharorion nad oedd ganddynt lawer o fynediad at fannau gwyrdd.



**Gardd synhwyraidd CEF Brynbuga**

4.9 Roedd carcharorion ym Mrynbuga yn gallu cael parsel pen-blwydd blynyddol o ddillad, ac roedd y trefniadau golchi dillad ar y safle yn effeithiol. Roedd staff ym Mhrescoed yn hyblyg ynghylch pryd roedd carcharorion yn cael dillad newydd, yn enwedig ar gyfer y rheini yr oedd angen dillad arnynt ar gyfer gwaith. Fodd bynnag, roedd y cyfleusterau golchi dillad yn gyfyngedig ac roedd y sychwyr wedi torri'n rheolaidd.

## Gwasanaethau preswyl

4.10 Roedd y bwyd yn rhesymol. Roedd yr un fwydlen pedair wythnos ar gael yn y ddau safle gyda digon o ddewis ar gyfer gwahanol ofynion dietegol. Cafwyd rhywfaint o ymgynghori ynghylch y bwyd.

4.11 Roedd y rhan fwyaf o fwyd ar gyfer y ddau safle yn cael ei gyflenwi o'r gegin ym Mhrescoed, lle gallai carcharorion hefyd ennill cymwysterau

arlwyo. Roedd cynlluniau datblygedig i fferm Prescoed gyflenwi cynnyrch llaeth ffres ar gyfer y ddau garchar.

4.12 Roedd cegin ychwanegol fach wedi cael ei hadeiladu ym Mrynbuga i baratoi rhywfaint o fwyd sylfaenol, ac roedd carcharorion yn teimlo bod hyn wedi gwella ansawdd prydau bwyd. Nid oedd staff yn goruchwylio'r gegin hon a'r cownter arlwyo yn ddigonol, a gwelsom feintiau amrywiol o brydau yn cael eu gweini.

4.13 Roedd gan ystafelloedd Cameo (gweler paragraff 4.22) yn y ddau safle gegin fach i garcharorion ei defnyddio. Fel arall, roedd y cyfleusterau hunanarlwyo ym Mhrescoed yn gyfyngedig ac nid oeddent yn hyrwyddo sgiliau byw'n annibynnol yn ddigonol. Roedd carcharorion mewn rhai unedau yn elwa o ffwrneisi ffrio a phoptai, tra mai microdon a thostiwr yn unig oedd gan eraill.

4.14 Gallai carcharorion fwyta allan o'u celloedd yn y ddau safle. Roedd gan Frynbuga fyrddau a chadeiriau bwyta wedi'u tynnu allan ar y landin, ac ardal gymunedol ar un o'r adeiniau. Roedd gan Brescoed neuadd fwyta wedi'i haddurno'n dda, a gwelsom garcharorion yn bwyta wrth y byrddau a'r cadeiriau a ddarparwyd ar y tiroedd pan oedd y tywydd yn caniatáu hynny.

4.15 Roedd y ceginau a'r mannau gweini a welsom yn lân, ond roedd rhywfaint o offer wedi torri, ac roedd rheolwyr wedi bwriadu trwsio'r rhain.




**Cyfarpar cegin CEF Brynbuga wedi torri**

4.16 Roedd trefniadau'r siop ar gyfer carcharorion yn y ddau safle yn weddol effeithiol. Roedd y cynnyrch a oedd ar gael yn cynnwys ffrwythau ffres a detholiad o grefftau a deunyddiau hamdden.

**Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn**

4.17 Roedd yr ymgynghori â charcharorion ym Mrynbuga yn dda, gyda chyfarfodydd misol wedi'u trefnu'n dda a chynrychiolaeth dda o bob adain. Roedd y carcharorion roedden ni wedi siarad â nhw yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw, ac roedd y canlyniadau'n cael eu cyfleu'n dda. Ychydig o bobl oedd yn mynychu cyfarfodydd cymunedol ym Mhrescoed, ac nid oedd bob amser yn glir a roddwyd sylw i'r camau gweithredu a drafodwyd. Yn ddiweddar, roedd staff wedi cynyddu'r cyfathrebu am y cyfarfodydd drwy sianeli teledu'r carchar.

4.18 Roedd y systemau ymgeisio a chwyno yn gadarn. Ychydig o gwynion a gafwyd yn y ddau garchar. Roedd yr ymatebion a adolygwyd gennym yn fanwl ac yn amserol, ac roedd sicrwydd ansawdd ar waith. Roedd cyfarfodydd uwch arweinwyr yn adolygu tueddiadau mewn cwynion yn rheolaidd ond, er syndod, ni chofnodwyd nifer y cwynion a gadarnhawyd.

4.19 Roedd cynrychiolwyr carcharorion, 'Torwyr patrymau', wedi cael eu cyflwyno ar y ddau safle i wella cyfathrebu â charcharorion a'u cyfeirio at yr adran gywir cyn iddynt wneud cwyn. Roedd hon yn fenter addawol ond newydd, ac ychydig o dystiolaeth a welwyd hyd yma o'i heffaith.

4.20 Roedd staff Brynbuga wedi agor rhai llythyrau cyfreithiol yn anghywir yn y flwyddyn flaenorol. Roedd arweinwyr yn gwybod bod hyn yn bryder ac roeddent wedi cyhoeddi canllawiau, ond roedd yn amlwg bod rhai staff yn dal yn ansicr o'r broses.

## Triniaeth deg a chynhwysiant


Canlyniadau disgwyliedig: Mae dull clir o hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da. Mae anghenion penodol carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (gweler yr Eirfa), neu’r rheini a allai fod mewn perygl o wynebu gwahaniaethu neu o gael triniaeth annheg, yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu ymarfer eu crefydd. Mae’r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

4.21 Roedd gwaith i hyrwyddo triniaeth deg a chynhwysiant wedi gwella yn y ddau garchar ers yr arolygiad blaenorol, ac roedd gan Frynbuga ddiwylliant arbennig o gadarnhaol a chynhwysol. Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ethos cymunedol Brynbuga, a gwelsom sylw da yn cael ei roi i ddiwallu anghenion unigol. Yn y ddau garchar, roedd rhaglen eang o ddigwyddiadau i roi cymorth a chadarnhad i garcharorion, gan gynnwys wythnos dathlu niwroamrywiaeth, dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, boreau coffi i hyrwyddo iechyd meddwl da a boreau coffi i gyn-filwyr.

4.22 Roedd 42 y cant o'r boblogaeth ym Mrynbuga a 15% ym Mhrescoed dros 50 oed, a chawsant amrywiaeth dda o weithgareddau a chefnogaeth. Roedd gan y ddau garchar ganolfan 'Cameo' ('dewch i

gwrdd â'ch gilydd') sydd wedi hen ennill ei phlwyf, ac sy'n cael ei rhedeg gan Fyddin yr Iachawdwriaeth. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys brecwast, bingo, cŵn therapi, ymarfer corff byw'n iach, celf a cherddoriaeth, gwnïo a mynd am dro. I'r gwrthwyneb, ychydig o sylw a roddwyd i ddeall anghenion penodol carcharorion iau a oedd yn cyfrif am tua 10% o'r boblogaeth ym Mhrescoed a 5% ym Mrynbuga.

4.23 Roedd gan bob carchar reolwr cymorth niwroamrywiaeth a oedd yn asesu ac yn cefnogi carcharorion ag anghenion niwrowahanol. Roedd data lleol yn dangos bod angen rhyw fath o gymorth ar 94 o garcharorion ym Mrynbuga a 68 ym Mhrescoed, a oedd yn cynnwys addasiadau i'r gweithle, offer fel ysgrifbinnau darllen, teganau gwingo a masgiau llygaid. Ym Mrynbuga, gallai carcharorion fynychu cwrs ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan y rheolwr a chael 'pasbort' yn manylu ar eu hanghenion unigol; defnyddiwyd hwn wedyn i helpu staff i gyfathrebu'n fwy effeithiol â charcharorion (gweler paragraffau 3.15 a 5.31).




**Enghraifft o basbort Niwroamrywiaeth ym Mrynbuga**

4.24 Dywedodd carcharorion ag anableddau wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi, a bod addasiadau'n cael eu darparu lle bo angen. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau gadael mewn argyfwng ar gael i staff yr adain ac yn aml nid oedd ganddynt lawer o fanylion pan oeddent ar gael. Nid oedd gan rai carcharorion a oedd wedi cael rhybudd ar y system genedlaethol ar gyfer rheoli troseddwyr (Nomis) y carchar, gynllun ysgrifenedig.

4.25 Roedd carcharorion o leiafrifoedd ethnig yn fwy negyddol na charcharorion gwyn am eu triniaeth gan staff ym Mhrescoed, ond nid oedd hyn wedi cael ei godi na'i archwilio yn fforymau'r carcharorion. Ni ddilynwyd y pryderon a nodwyd yn y data monitro yn gyson (gweler

paragraff 4.27 ). Roedd y gefnogaeth i garcharorion sy'n wladolion tramor yn wan, ac ni ddefnyddiwyd cyfieithu dros y ffôn ar gyfer cyfarfodydd pwysig gyda phobl nad ydynt yn siarad Saesneg.

4.26 Roedd cefnogaeth dda ar y cyfan i grwpiau eraill, gan gynnwys tri charcharor trawsryweddol ym Mrynbuga a oedd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddwyd iddynt. Roedd y gwaith gyda chyn-filwyr yn arbennig o dda, gyda chyfarfodydd misol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys gorymdeithiau, digwyddiadau chwaraeon a thaith gerdded noddedig a oedd yn codi arian i elusennau lleol. Roedd gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg yn datblygu ac yn cynnwys fforwm carcharorion rheolaidd a dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer staff a charcharorion.

4.27 Roedd nifer dda yn bresennol mewn cyfarfodydd cydraddoldeb chwarterol ac roeddent yn defnyddio rhywfaint o ddata i ganfod gwahaniaethu posibl. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth o anghymesuredd yn y defnydd o ROTL ym Mhrescoed, nid ymchwiliwyd ymhellach i hyn ac ni roddwyd sylw iddo. Ychydig iawn o ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRF) a gyflwynwyd; ymchwiliwyd iddynt yn weddol dda ac roedd yr ymatebion yn briodol. Sicrhaodd y dirprwy lywodraethwr ansawdd y rhan fwyaf ohonynt ac arweiniodd hyn at rai camau gwella, fel hyfforddiant penodol i staff.

### Ffydd a chrefydd

4.28 Roedd y ddarpariaeth caplaniaeth yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o grwpiau ffydd. Roedd y cyfleusterau ffydd ym Mrynbuga yn rhesymol ac yn cynnwys capel, ardal ddarllen ac ystafell aml-ffydd fach. Cynhaliwyd gweddïau dydd Gwener yn ystafell Cameo. Ym Mhrescoed, roedd y cyfleusterau'n llai ac yn fwy sylfaenol, ond yn ddigonol.




**Capel CEF Brynbuga (chwith) a Chapel CEF Prescoed**

4.29 Roedd y gaplaniaeth wedi'i hintegreiddio'n dda i'r carchardai ac yn cynnal amserlen wythnosol o sesiynau a oedd yn cynnig grwpiau astudio a chyd-addoli. Roedd y tîm wedi meithrin cysylltiadau defnyddiol â grwpiau ffydd cymunedol, fel Byddin yr Iachawdwriaeth a Christnogion yn erbyn Tlodi, a oedd yn cefnogi rhai carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

4.30 Roedd y tîm hefyd yn cynnig ymweliadau â charcharorion na fyddent fel arall yn eu cael, drwy gynllun ymwelwyr gwirfoddol. Roedd saith ymwelydd a gyfarfu â 15 o garcharorion yn cael eu cefnogi gan y carchar drwy hyfforddiant a chyfarfodydd rheolaidd â'r caplan sy'n rheoli a'r llywodraethwr.

## Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Canlyniadau disgwyliedig: Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau, ac sy'n hyrwyddo parhad gofal pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei chael mewn mannau eraill yn y gymuned.

4.31 Cynhaliwyd yr arolygiad o wasanaethau iechyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Carchardai EF, o dan gytundeb memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng yr asiantaethau.

### Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

4.32 Roedd cleifion yn canmol y gwasanaeth iechyd yn fawr ar draws y ddau safle. Ym Mrynbuga, thema gyson yn adborth cleifion oedd nad oedd staff gofal iechyd yn feirniadol, a'u bod yn ofalgar. Roedd y staff yn adnabod eu cleifion yn dda, a gwelsom ryngweithio caredig, parchus ac ystyriol rhwng cleifion a staff. Yn ein harolwg, dywedodd 99% o gleifion Brynbuga fod gwasanaethau iechyd yn dda.

4.33 Cafodd y pennaeth gofal iechyd a benodwyd yn ddiweddar ei gefnogi gan glinigwyr profiadol ac roedd yn darparu arweinyddiaeth werthfawr. Disgrifiodd staff o bob disgyblaeth glinigol y rheolwyr fel rhai cefnogol iawn. Roedd staff gofal iechyd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn frwdfrydig dros eu datblygiad proffesiynol parhaus i wella gofal cleifion. Cafodd goruchwyliaeth glinigol ei chynnal a'i chofnodi.

4.34 Bu'r carchar a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cydweithio'n dda i ddarparu gwasanaethau iechyd. Yn ystod achos diweddar o'r ffliw, buont yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i reoli gofal cleifion yn llwyddiannus a lleihau'r lledaeniad. Fodd bynnag, nid oedd gan y carchar na'r bwrdd darparu gofal iechyd ddata a dadansoddiadau cadarn i helpu i oruchwylio llywodraethu clinigol yn effeithiol. Roedd lefelau isel iawn o adrodd am ddigwyddiadau ac nid oedd digwyddiadau 'a fu bron â digwydd' bob amser yn cael eu hadrodd. Roedd asesiad anghenion iechyd 2023 yn canolbwyntio ar anghenion iechyd corfforol gyda chanllawiau neu argymhellion cyfyngedig ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl.

4.35 Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cadw ar SystmOne (y system gwybodaeth glinigol electronig). Roedd y gwaith o gadw cofnodion clinigol a adolygwyd gennym yn dda, ond roedd diffyg cynllunio gofal ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor.

4.36 Cynigiwyd y gwasanaeth iechyd o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8am a 4.30pm ar y ddau safle, gyda chlinig hwyr gyda'r nos ar ddydd Mercher tan 7pm ym Mhrescoed er mwyn galluogi mynediad i garcharorion sy'n gweithio oddi ar y safle. Roedd canolfannau iechyd yn y ddau safle yn lân, ond nid oedd gan Frynbuga lawer o le clinigol na storio; nid oedd mesurau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu dilyn (gweler paragraff 4.70).

4.37 Roedd offer argyfwng yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, gan gynnwys diffibrilwyr allanol awtomatig, a oedd yn ddiogel ac yn effeithiol. Er bod y bagiau gafael mewn argyfwng ar olwynion, roeddent yn drwm ac yn anodd eu cludo.

4.38 Ychydig o gwynion a gafwyd am y gwasanaethau iechyd. Roedd y rheini a samplwyd gennym yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn barchus ac yn effeithiol. Fodd bynnag, daeth cwynion drwy'r system garchardai, nad oedd yn ddigon cyfrinachol.

### Hybu iechyd a lles

4.39 Yn gyffredinol, roedd iechyd yn cael ei hybu’n dda ac roedd gwybodaeth berthnasol ar gael yn Gymraeg, ond nid oedd hyrwyddwyr iechyd na hyfforddwyr iechyd. Cynigiwyd rhaglenni sgrinio iechyd cenedlaethol, fel y coluddyn neu anewrysm aortig, a chafodd y defnydd ei fonitro. Cynigiwyd sgrinio iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran y GIG fel rhan o'r gwaith o hybu iechyd a lles. Bu menter yn ddiweddar i wella'r nifer sy'n cael imiwneiddiadau a brechiadau. Roedd y gwaith hwn yn parhau ac roedd rhagor o waith yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael ag amharodrwydd i gael brechiadau.

4.40 Cynigiwyd sgrinio iechyd rhywiol, a oedd yn cynnwys clamydia a gonorea, ac fe'i cyfeiriwyd ymlaen at glinigau iechyd rhywiol arbennig pan oedd angen. Roedd y brechlyn HPV (feirws papiloma dynol) hefyd wedi cael ei gynnig, ac roedd y nifer a frechwyd wedi bod yn rhesymol, gydag ymgyrch arall i fod i gael ei chynnal.

### Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

4.41 Roedd yn rhaid i'r holl gleifion yn y ddau garchar allu cadw eu meddyginiaeth yn eu meddiant. Nid oedd y carchar yn derbyn unrhyw un a oedd ar gyffur rheoledig, gan gynnwys meddyginiaethau i reoli dibyniaeth ar opiadau a rhywfaint o feddyginiaeth ar gyfer ADHD. O ganlyniad, nid oedd y gwasanaeth yn gallu cefnogi'r broses barhaus o adsefydlu cleifion yn y grwpiau hyn.

4.42 Roedd bron pawb a oedd yn cyrraedd y carchar o’r newydd yn cael sgriniad iechyd ar y diwrnod roeddent yn cyrraedd, ac yna asesiad cynhwysfawr eilaidd o fewn tri diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd pobl a oedd yn cyrraedd yn hwyr bob amser yn cael eu gweld yn brydlon ac nid oedd unrhyw fonitro i ganfod hyd a lled y pryder hwn. Yn ein harolwg, dim ond 47% o garcharorion ym Mrynbuga, o'i gymharu â 79% mewn carchardai tebyg, a ddywedodd eu bod yn cael eu gweld

gan staff iechyd yn y dderbynfa. Cyfeiriwyd cleifion yn gyflym at wasanaethau eraill yn ôl yr angen.

4.43 Roedd amseroedd aros ar gyfer clinigau yn fyr ac roedd mynediad at y meddyg teulu yn dda. Gallai unrhyw un a oedd angen gweld meddyg teulu ar frys wneud hynny ar yr un diwrnod ac roedd apwyntiadau nad oeddent yn rhai brys ar gael o fewn wythnos.

4.44 Roedd ystod lawn o wasanaethau gofal sylfaenol ar gael ac roedd amseroedd aros yn cael eu rheoli'n dda. Roedd yr optegydd wedi cynnal clinigau ychwanegol yn ddiweddar i glirio rhestr aros oedd ar gynnydd.

4.45 Yn ein sampl o gofnodion clinigol, nid oedd gan yr un o'r cleifion â chyflwr hirdymor gynllun gofal i lywio eu gofal diogel ac effeithiol. Roedd ystafell gofal lliniarol ar gael i gleifion a oedd yn dymuno aros yn y carchar ar ddiwedd eu hoes, er nad oedd wedi cael ei defnyddio ers yr arolygiad diwethaf. Cefnogwyd yr ystafell hon gan bartneriaeth gadarn â'r hosbis leol a gwasanaeth oncoleg ysbyty.

4.46 Os nad oedd y carchar yn gallu hwyluso hebryngwyr ar gyfer apwyntiad claf allanol, dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei aildrefnu'n brydlon. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei fonitro i sicrhau bod arweinwyr yn ymwybodol o unrhyw oedi hir.

4.47 Adolygodd staff iechyd garcharorion a oedd i fod i gael eu rhyddhau, a rhoddwyd llythyr cryno iddynt fynd ag ef at eu meddyg teulu ac unrhyw feddyginiaeth i fynd adref gyda nhw.

**Gofal cymdeithasol**

4.48 Roedd y tîm gofal cymdeithasol profiadol sydd wedi'i hyfforddi'n dda yn cynnwys uwch weithiwr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol ac uwch weithiwr gofal. Roedd gwasanaethau ar gael bum diwrnod yr wythnos, ac ar gael ar benwythnosau os oedd angen. Roedd y canlyniadau i garcharorion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn dda iawn, a dywedodd pawb y buom yn siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth.

4.49 Mynychodd aelodau'r tîm gyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd i sicrhau'r gofal angenrheidiol i gleifion. Yr oedd memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y carchar, gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond nid oedd y protocol rhannu gwybodaeth yn cael ei ddilyn bob amser.

4.50 Cafodd chwe charcharor a oedd yn ‘Gyfeillion’ eu hyfforddi a'u goruchwylio gan y tîm i ddarparu cymorth i garcharorion sy'n derbyn gofal cymdeithasol, fel casglu prydau bwyd. Roedd y Cyfeillion y buom yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi eu rôl ac yn teimlo eu bod wedi datblygu sgiliau a fyddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol. Roedd grŵp byw'n iach wythnosol poblogaidd yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol a gemau sy'n seiliedig ar gof.

4.51 Gwelsom un gell wedi'i haddasu lle'r oedd claf â salwch cynyddol yn byw gyda gofal cymdeithasol a chymorth Cyfaill. Roedd digon o le ar gyfer cymhorthion symud ac offer priodol i gefnogi bwyta'n annibynnol.

**Iechyd meddwl**

4.52 Roedd gwasanaethau iechyd meddwl ar gael bedwar diwrnod yr wythnos rhwng 8.30am a 4.30pm. Nid oedd unrhyw restrau aros ac roedd cleifion yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Roedd gwaith partneriaeth da rhwng gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau iechyd eraill a'r carchar i gefnogi cleifion.

4.53 Roedd staffio gwasanaethau iechyd meddwl yn fregus. Rhannwyd swydd iechyd meddwl 30 awr rhwng dau aelod o staff rhan amser, nad oedd ganddynt unrhyw staff llanw ar gyfer hyfforddiant, gwyliau blynyddol, datblygiad proffesiynol parhaus na salwch. Dywedwyd wrthym fod arfarniad opsiynau wedi'i gynnal ar gyfer y gwasanaeth iechyd meddwl ond nad oedd canlyniadau hyn yn hysbys.

4.54 Roedd tri charcharor yn cael eu trin â meddyginiaeth seicotropig ac roedd ganddynt yr oruchwyliaeth ofynnol gan seiciatrydd ymgynghorol. Cynhaliwyd adolygiadau o bresgripsiynu ac archwiliadau iechyd corfforol o fewn amserlenni cenedlaethol.

4.55 Roedd cleifion yn cael eu gweld yn rheolaidd gan ymarferwyr profiadol iawn a oedd yn eu hadnabod yn dda. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw brosesau asesu ffurfiol, nid oedd gan yr ymarferwyr lwyth achosion ac nid oedd cynlluniau gofal ar gyfer cleifion, a oedd yn risg i ddiogelwch cleifion a pharhad gofal. Roedd ansawdd y cofnodion clinigol yn dda gydag amserlenni priodol ar gyfer adolygiadau cleifion. Roedd y tîm iechyd meddwl yn mynychu adolygiadau ACCT yn rheolaidd, a oedd wedi'u trefnu i wneud yn siŵr eu bod yn gallu bod yn bresennol. Fe wnaeth ymarferwyr ein sicrhau eu bod yn cael eu goruchwylio'n glinigol ac yn rheolaethol yn rheolaidd, ond nid oedd unrhyw gofnodion ar gael i ni eu gweld.

4.56 Nid oedd rhyddhau carcharorion yn digwydd yn aml; gan nad oedd yr un claf yn paratoi i adael adeg yr arolygiad, nid oeddem yn gallu asesu na phenderfynu ar y cynlluniau rhyddhau. Ni throsglwyddwyd claf i wely ysbyty diogel o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

**Cymorth a thriniaeth ar gyfer carcharorion sy'n gaeth i sylweddau a'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau**

4.57 Roedd 45 o garcharorion ym Mrynbuga a 68 ym Mhrescoed yn cael cymorth camddefnyddio sylweddau, pob un â chynlluniau gofal priodol. Dywedodd cleifion wrthym fod y gefnogaeth yn dda iawn. Cawsant eu gweld o fewn 48 awr ac roeddent naill ai'n cael cymorth un-i-un neu'n mynychu rhaglen grŵp dreigl. Roedd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a ddarparwyd gan Dyfodol, yn cael eu rheoli gan arweinydd tîm a dau weithiwr achos, a oedd i gyd yn llawn amser.

4.58 Nid oedd staff Dyfodol yn gallu cael mynediad at y cofnodion clinigol electronig a ddefnyddir gan y tîm gofal iechyd, a allai gael effaith niweidiol ar rannu gwybodaeth a diogelwch cleifion.

4.59 Roedd gan y ddau safle raglenni gwahanol, ond roedd y ddau yn canolbwyntio ar osod nodau a chyd-gefnogaeth. Ym Mhrescoed, roedd y grŵp 'Tuag at Adferiad' pum wythnos yn cynnig dwy sesiwn yr wythnos, a oedd yn ymdrin â materion iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau, yn ogystal ag ymyriadau lleihau niwed. Roedd yn canolbwyntio ar gleifion a oedd ar fin cael eu rhyddhau.

4.60 Roedd yn gadarnhaol bod Dyfodol wedi cyflwyno hyfforddiant i swyddogion a staff eraill y carchar ar adnabod arwyddion o gamddefnyddio sylweddau ac effeithiau meddwdod. Hyfforddodd staff hefyd i ddefnyddio a gweinyddu naloxone drwy'r trwyn (cyffur i wrthdroi effeithiau cyffuriau opiad anghyfreithlon). Ymunodd pob claf ar yr uned cymell i fyw heb sylweddau â'r grŵp Tuag at Adferiad, a chawsant hyfforddiant ar ddefnyddio naloxone. Cynigiwyd Naloxone hefyd i bob claf ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, ac roedd y rhai a'i derbyniodd wedi cael hyfforddiant i ddeall sut a phryd i'w ddefnyddio.

4.61 Cafodd cleifion apwyntiadau dilynol ar ôl cael eu rhyddhau, ac roedd Dyfodol yn gallu monitro'r rheini a wnaed yng Nghymru.

**Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol**

4.62 Gweithiodd fferyllydd clinigol ar y safle unwaith yr wythnos i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb a chynigiodd apwyntiadau dilynol os oedd angen. Roedd hyn yn sicrhau gofal o ansawdd uchel i garcharorion sy'n derbyn meddyginiaethau.

4.63 Roedd cleifion yn cael meddyginiaethau naill ai fel cyflenwad saith diwrnod neu 28 diwrnod, yn dibynnu ar y categori risg meddyginiaeth. Roedd meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi'n ddiogel gan wasanaeth dan arweiniad technegydd fferyllol. Roedd systemau ar gael i gofnodi, nodi a chyfeirio cleifion nad oeddent yn bresennol i gasglu eu meddyginiaethau. Roedd cleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau yn cael cyflenwad o saith diwrnod ar y lleiaf, neu bresgripsiwn, i sicrhau parhad yn y feddyginiaeth.

4.64 Ychydig iawn o gyfle a gafodd cleifion nad oeddent yn gallu cadw meddyginiaethau yn eu meddiant i ddysgu sut i'w rheoli, a phan fethodd cymorth, cawsant eu trosglwyddo i amodau caeedig.

4.65 Roedd natur y polisi mewn meddiant yn golygu nad oedd y tîm gofal iechyd wedi rhoi meddyginiaethau risg uchel ar bresgripsiwn, fel poenladdwyr opiadau. Roedd hyn yn creu amgylchedd lle nad oedd llawer o feddyginiaethau y gellid eu masnachu. Cwblhawyd archwiliadau cydymffurfio â chelloedd ar gyfer 10% o boblogaeth y carchar bob mis.

4.66 Roedd meddyginiaethau'n cael eu danfon i'r carchar gan y fferyllfa allanol ar amser a gyda llwybr archwilio clir. Roedd cludo, storio a rheoli stoc meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda. Roedd rhai bylchau mewn llywodraethu, a oedd yn cynnwys dirprwyo'r drefn rhannu moddion a rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd rhywfaint o ddirprwyo'r drefn rhannu moddion, a oedd yn arfer gwael. Dim ond poenladdwyr syml oedd ar gael fel meddyginiaethau dros y cownter, ac nid oedd hynny'n annog carcharorion i reoli cyflyrau acíwt eu hunain.

4.67 Roedd archwiliadau clinigol a phrosiectau adolygu presgripsiynu yn fater o drefn. Roedd y fferyllydd wedi'i integreiddio'n dda â gweddill y tîm gofal iechyd mewn dull amlddisgyblaethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau bob tri i bedwar mis, gyda'r llywodraethwr yn bresennol, gan ddangos perthynas waith agos.

**Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg**

4.68 Roedd Time for Teeth yn gweithredu gwasanaeth deintyddol ar gyfer tua 550 o garcharorion dri diwrnod yr wythnos. Darparwyd yr holl driniaeth yn uned ddeintyddol Brynbuga, gyda chleifion yn cael eu trosglwyddo o Brescoed am ddwy sesiwn ddeintyddol yn y prynhawn. Roedd cleifion o Frynbuga wedi elwa o sesiwn hirach, argaeledd therapydd un diwrnod yr wythnos a pholisi symud yn rhydd, a oedd yn galluogi mynediad hawdd i'r uned gofal iechyd.

4.69 Roedd 42 o gleifion o Brescoed yn aros am asesiad deintyddol cychwynnol ac roedd yr amseroedd aros yn fyr, gyda'r amser aros hiraf yn bedair wythnos. Nid oedd unrhyw gleifion ar y rhestr aros hon o Frynbuga. Roedd y cleifion yn fodlon iawn.

4.70 Roedd meddygfa fach gydag ystafell ddihalogi gyfagos, yn yr adran gofal iechyd. Roedd y feddygfa'n ymddangos yn lân ac wedi'i threfnu'n dda. Fodd bynnag, roedd trim sgertin y llawr yn dod yn rhydd, gan rwystro glanhau effeithiol. Trefnwyd yr ystafell ddihalogi yn unol â chanllawiau cenedlaethol Cymru. Roedd awtoclafau a baddonau uwchsain yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal yn briodol. Er bod blychau glân a budr ar gyfer offer ar gael, nid oedd y rhain wedi'u labelu'n briodol, gyda risg o halogiad. Roedd eitemau anghlinigol yn cael eu storio yn yr ystafell ddihalogi ac roedd angen eu symud ar unwaith, a gwnaed hyn yn ystod yr arolygiad. Nid oedd digon o le i storio.

4.71 Roedd cynllun da o archwiliadau, ac roedd nodiadau cleifion yn helaeth ac o ansawdd da. Roedd yr offer pelydr-X wedi'i gynnal yn dda ac mewn cyflwr da. Roedd offer argyfwng a meddyginiaethau ar gael ac yn gyfredol.

# Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol


**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

## Amser allan o'r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pob carcharor yn cael digon o amser y tu allan i'r gell (gweler yr Eirfa) ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol, sy'n cefnogi ei les ac yn hyrwyddo adsefydlu effeithiol.

5.1 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion ym Mrynbuga yn cael mwy na naw awr y dydd heb fod dan glo, gan gynnwys ar gyfer cymdeithasu gyda'r nos, ac yn cael llawer mwy o amser allan o'u cell nag yn ein harolygiad diwethaf. Ym Mhrescoed, roedd gan garcharorion allweddi i'w hystafelloedd eu hunain ac nid oedd yn rhaid iddynt ddychwelyd i'w hunedau tan 9pm. Yn y ddau garchar, roedd bron pawb yn cael eu dyrannu i weithgarwch llawn amser, er bod llawer o garcharorion a oedd yn gweithio ar y safle ym Mhrescoed heb ddigon i'w wneud (gweler paragraff 5.12).

5.2 Roedd gan unedau preswyl ym Mrynbuga rywfaint o offer hamdden, fel byrddau pŵl, a chynigiwyd llawer o weithgareddau strwythuredig, gan gynnwys clwb gwyddbwyll, celf a chrefft, ymarfer band a dosbarthiadau Cymraeg. Ym Mhrescoed, agorwyd ystafell gymdeithasu gyda'r nos a gallai carcharorion ymgynnull yn gymdeithasol mewn gwahanol ardaloedd awyr agored. Gallai carcharorion cymwys hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden y tu allan i'r carchar, fel teithiau cerdded mynydd.





**Landin CEF Brynbuga gyda bwrdd pŵl (chwith) ac ystafell gymdeithasu CEF Prescoed**

5.3 Roedd carcharorion yn cael mynediad da iawn i'r llyfrgelloedd ar y ddau safle saith diwrnod yr wythnos, gan gynnwys hyd at 7pm yn ystod yr

wythnos. Yn ein harolwg, dywedodd 97% o garcharorion ym Mhrescoed a 95% ym Mrynbuga fod ganddynt fynediad i'r llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd data carchardai'n dangos bod y llyfrgelloedd wedi cael dros 12,000 o ymweliadau yn ystod y tri mis hyd at fis Mawrth 2025. Cyflogwyd y llyfrgellydd, a oedd yn gyfrifol am y ddau safle, gan Gyngor Sir Fynwy a gallai archebu stoc o lyfrgelloedd cymunedol.

5.4 Roedd cyfleusterau campfa yn y ddau safle yn cynnwys mynediad at bwysau, offer hyfforddi cardiofasgwlaidd, neuadd chwaraeon dan do a chae chwaraeon agored mawr, ond nid oedd gan garcharorion ym Mhrescoed fynediad am ddim i'r gampfa. Roedd prif amserlenni'r gampfa yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys badminton, pêl-droed, hyfforddiant cylchol, a sesiynau ar gyfer carcharorion niwroamrywiol a'r rheini sydd â symudedd cyfyngedig. Roedd mynediad i'r gampfa ar benwythnosau yn gyfyngedig, gydag argaeledd ar ddydd Sadwrn ym Mhrescoed yn unig ac ar ddydd Sul ym Mrynbuga.



**Ystafell codi pwysau CEF Brynbuga gydag offer cardiofasgwlaidd (chwith uchaf). Neuadd Chwaraeon CEF Brynbuga (dde uchaf), ystafell codi pwysau CEF Prescoed (gwaelod, chwith), Neuadd Chwaraeon CEF Prescoed (gwaelod, dde)**

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynhelir y rhan hon o’r arolygiad gan arolygwyr Estyn, gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai’n cael eu dal yn atebol i’r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

Canlyniadau disgwyliedig: Gall pob carcharor gymryd rhan mewn gweithgarwch sy’n bwrpasol, sydd o fudd iddynt ac sy’n gwella eu cyflogadwyedd. Anogir a galluogir carcharorion i ddysgu yn ystod ac ar ôl eu dedfryd. Mae’r ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith o safon dda ac yn effeithiol o ran diwallu anghenion pob carcharor.

5.5 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith:

- Y farn gyffredinol wrth arolygu CEF Brynbuga oedd bod y canlyniadau i garcharorion yn dda.
- Y farn gyffredinol wrth arolygu CEF Prescoed oedd bod y canlyniadau i garcharorion yn eithaf da.

**Addysgu a dysgu**

5.6 Gwnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod mewn sesiynau addysg, hyfforddiant a gwaith, yn enwedig wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a galwedigaethol craidd. Dangosodd dysgwyr ddealltwriaeth gadarn a defnydd o gysyniadau allweddol yn y meysydd hyn, gyda llawer yn gallu cynhyrchu llyfrau gwaith wedi'u cyflwyno'n dda sy'n adlewyrchu cynnydd clir.

5.7 Roedd dysgu ymarferol yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth. Datblygodd a defnyddiodd y dysgwyr sgiliau ymarferol gwerthfawr drwy weithgareddau fel gwaith fferm, gwaith coed, rheoli gwastraff ac arlwyo. Cafodd y profiadau hyn eu datblygu ymhellach drwy gymryd rhan mewn rhaglenni achredededig, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol (NVQ), cymwysterau rheoli gwastraff (WAMITAB), gyrru cerbydau nwyddau trwm, rheoli traffig a gweithredu wagenni fforch godi. Roedd rhai dysgwyr hefyd wedi dilyn cymwysterau lefel uwch, fel graddau'r Brifysgol Agored a chyrsiau ysgrifennu creadigol, a oedd yn ehangu eu gorwelion academaidd a galwedigaethol.

5.8 Roedd llawer o ddysgwyr yn adeiladu'n dda ar waith dysgu blaenorol ac yn dangos ymwybyddiaeth o dargedau personol drwy offer fel targedau unigol a llyfrau gwaith cynnydd. Roedd defnyddio geirfa dechnegol briodol a geirfa sector-benodol yn arbennig o effeithiol mewn meysydd galwedigaethol arbenigol. Roedd rhai dysgwyr hefyd yn cefnogi eraill fel mentoriaid cymheiriaid, gan gyfrannu at ddiwylliant dysgu cadarnhaol, a helpu dysgwyr mwy newydd neu lai profiadol i ymgartrefu a gwneud cynnydd effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd rhai dysgwyr, yn enwedig y rheini a oedd â phrofiad galwedigaethol cryf cyn hynny, yn gwneud y cynnydd yr oeddent â'r gallu i'w gyflawni.

5.9 Roedd cyfraddau llwyddiant cyffredinol yn gryf ac roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr, ar draws grwpiau ethnig leiafrifol ac yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, wedi cwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus. Roedd llawer o ddysgwyr yn CEF Brynbuga wedi cyflawni mwy na'r asesiad cychwynnol mewn rhifedd ac roedd lleiafrif wedi cyflawni mwy na hynny mewn llythrennedd.

5.10 Roedd rhai dysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Er enghraifft, mynychodd grŵp o ddysgwyr a staff wersi Cymraeg i oedolion gyda'i gilydd, a chawsant gefnogaeth dda yn y sesiynau gan fentor cymheiriaid a oedd yn siarad Cymraeg.

5.11 Datblygodd y dysgwyr eu creadigrwydd, eu harweinyddiaeth a'u sgiliau cymdeithasol drwy amrywiaeth o weithgareddau buddiol, gan gynnwys y grŵp crefftau dan arweiniad cyfoedion, yr Eisteddfod a drama.

5.12 Yn gyffredinol, roedd agweddau dysgwyr tuag at ddysgu ar draws y ddau garchar yn gryf, yn enwedig yn CEF Brynbuga. Yn gyffredinol, dangosodd y dysgwyr lefelau uchel o gymhelliant, ymgysylltiad a brwdfrydedd ar draws ystod eang o weithgareddau. Roedd llawer o ddysgwyr yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn awyddus i rannu eu cynnydd â chyfoedion, staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, yn CEF Prescoed, yn rhy aml nid oedd carcharorion yn ddigon prysur am gyfnodau hir o'r dydd, lle nad oedd y lleoliadau gwaith a ddarparwyd yn ddigon heriol.

5.13 Gwnaeth llawer o ddysgwyr gysylltiadau clir rhwng eu haddysg a'u nodau o ran cyflogaeth neu ddatblygiad personol yn y dyfodol, gan ddangos ymdeimlad cryf o bwrpas yn y gweithgareddau yr oeddent yn eu gwneud. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd sgiliau cyflogadwyedd fel prydlondeb, cyfathrebu a gwaith tîm, ac roeddent yn dangos hyn yn gryf ar draws gwaith dysgu a gweithgareddau seiliedig ar waith.

5.14 Dangosodd rhai dysgwyr allu cryf i ddysgu o rwystrau, fel asesiadau neu brofion a fethwyd, ac roeddent yn awyddus i fyfyrio ar hyn a gwella. Roedd y gwaith tîm yn gryf, gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach, gan gefnogi ei gilydd i ddatblygu eu sgiliau. Roedd mentoriaid cymheiriaid yn gweithio'n dda iawn, gan gydweithio â dysgwyr a hyfforddwyr a'u cefnogi, a gyfrannodd at amgylcheddau dysgu pwrpasol a pharchus.

5.15 Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr addysgu, y profiadau dysgu a'r asesu yn gryf. Defnyddiodd llawer o staff addysgu asesiadau cychwynnol a diagnostig yn effeithiol i nodi mannau cychwyn dysgwyr, a rhoi darpariaeth bwrpasol yn unol â hynny. Roedd hyn yn arbennig o amlwg wrth grwpio dysgwyr ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar sail gallu, a'r defnydd o weithgareddau wedi'u teilwra'n unigol mewn sesiynau. Roedd y cynllunio'n effeithiol, gyda llawer o staff yn defnyddio gwaith dysgu blaenorol a diddordebau dysgwyr yn dda i lunio a darparu sesiynau diddorol a pherthnasol.

5.16 Roedd adborth llafar yn gryfder penodol. Rhoddodd y rhan fwyaf o staff addysgu adborth cadarnhaol a chefnogol, a oedd yn annog dysgwyr ac yn eu helpu i ddeall sut i wella. Fodd bynnag, yn aml nid oedd yr adborth ysgrifenedig yn ddigon manwl i ysgogi gwelliant. Mewn llawer o achosion, roedd y sylwadau ysgrifenedig yn gadarnhaol ond nid oeddent yn nodi camau penodol y gallai dysgwyr eu cymryd i wella eu gwaith. Ar ben hynny, nid oedd gwallau sylfaenol o ran sillafu, atalnodi a gramadeg bob amser yn cael eu cywiro mewn gwaith wedi'i farcio, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu cywirdeb wrth gyfathrebu'n ysgrifenedig. Roedd elfennau myfyriol llyfrau gwaith dysgwyr hefyd yn cael eu defnyddio'n anghyson, a oedd yn lleihau eu heffeithiolrwydd cyffredinol fel adnodd ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio cynnydd dysgwyr.

5.17 Defnyddiodd y staff addysgu strategaethau cwestiynu effeithiol ac ymgorffori dysgu blaenorol i gefnogi dysgwyr a dyfnhau eu dealltwriaeth. Yn ogystal, defnyddiwyd mentoriaid cymheiriaid a darparwyr allanol yn dda i ddarparu cymorth pwrpasol lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.

5.18 Roedd y berthynas rhwng y staff a'r dysgwyr yn gryf ac yn gynhyrchiol. Roedd athrawon a hyfforddwyr yn brofiadol, gwybodus, cefnogol ac agos-atoch, a gyfrannodd at amgylchedd cyffredinol a oedd yn ffafriol i ddysgu a thwf personol.

**Sbotolau: Fferm**

Roedd dysgwyr yn elwa o gyfleoedd i ddysgu a gweithio mewn lleoliadau dilys yn y carchardai, yn enwedig ar y fferm yn CEF Prescoed. Roedd rhai dysgwyr wedi elwa o weithio mewn fferm weithredol gwbl fasnachol a oedd yn cynnwys buches odro sylweddol, cyfleusterau geni lloeau a pharlwr godro robotig, ynghyd â chrafwr tail robotig. Roedd dysgwyr yn ysgwyddo cyfrifoldebau pwysig ac yn datblygu amrywiaeth o sgiliau galwedigaethol yn y lleoliad buddiol hwn. Er enghraifft, gofalu am y fuches odro, cynnal coetir a choedwigaeth, codi ffensys a waliau cerrig sych, a thîm tractor yn goruchwylio'r gwaith maes. Drwy'r gwaith hwn, enillodd dysgwyr gymwysterau ac achrediadau galwedigaethol buddiol i gefnogi'r broses o bontio i fyd gwaith ar ôl cael eu rhyddhau.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

5.19 Roedd darpariaeth addysg, sgiliau a gwaith y carchardai yn meithrin amgylchedd diogel, parchus a phwrpasol lle'r oedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n ystyrlon ac yn gwneud cynnydd clir a gwerthfawr.

5.20 Defnyddiodd staff asesiadau cychwynnol yn effeithiol i lunio cynlluniau dysgu unigol, a oedd yn cynnwys sgrinio niwroamrywiaeth a chynllunio dedfrydau. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael mynediad at weithgareddau addysg neu waith a oedd yn cyd-fynd yn dda â'u hanghenion a'u dyheadau. Yn y ddau garchar, roedd bron pob carcharor yn cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol, gan gynnwys

cyflogaeth allanol, gan adlewyrchu ffocws cryf y carchardai ar gyflogadwyedd ac ailsefydlu. Yn ogystal, roedd presenoldeb llawer o ddysgwyr yn dda. Fodd bynnag, yn CEF Prescoed, roedd trefniadau hyblyg ar gyfer rhai agweddau ar weithgarwch pwrpasol yn golygu nad oedd yn ofynnol i ychydig o garcharorion gymryd rhan mewn gweithgarwch am gyfnodau sylweddol o'r dydd. Roedd hyn yn cyfyngu ar ba mor barod oeddent ar gyfer amodau arferol bywyd gwaith ar ôl cael eu rhyddhau, a chafodd effaith negyddol ar eu lles cyffredinol.

5.21 Creodd staff addysgu ddiwylliant o ddisgwyliadau uchel ac ymddygiad cadarnhaol a oedd yn sail i'r amgylchedd dysgu. Yn ystod yr arolygiad, dywedodd bron pob un o'r dysgwyr fod y staff addysgu yn agos-atoch ac yn gefnogol. Roedd staff yn modelu parch ac ymddiriedaeth, ac roedd mentoriaid cymheiriaid yn cyfrannu at yr hinsawdd hon drwy gefnogi eraill a chynnal safonau. Roedd yr ethos hwn yn annog dysgwyr a oedd wedi cael trafferth mewn lleoliadau addysgol yn y gorffennol i gymryd rhan, ac yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth a chymhelliant.

5.22 Roedd strwythur hyblyg y cwricwlwm yn gryfder, gan alluogi dysgwyr i gyfuno addysg â lleoliadau gwaith a chyfrifoldebau eraill. Er enghraifft, yn CEF Brynbuga defnyddiwyd cyrsiau byr i gefnogi cynnydd, lles a chymhelliant dysgwyr. I'r gwrthwyneb, roedd dysgu yn yr uned yn CEF Prescoed yn ategu darpariaeth, gan helpu i leihau unrhyw darfu a chefnogi cynnydd. Nododd llawer o ddysgwyr y sgiliau yr oeddent am eu gwella, a buont yn gweithio gyda thiwtoriaid i addasu nodau a llwybrau dysgu. Er enghraifft, ailedrychodd dysgwyr a oedd yn paratoi i gael eu rhyddhau ar y llwybrau o'u dewis, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'u nodau ailsefydlu.

5.23 Roedd y sesiynau dysgu'n bwrpasol ar y cyfan, gydag ychydig o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn addysg yn gweithio tuag at gymwysterau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, ymwybyddiaeth o sylweddau, ymwybyddiaeth ariannol, cwnsela a mentora cymheiriaid. Roedd y sesiynau hyn yn cefnogi twf personol a chyflogadwyedd yn y dyfodol yn effeithiol.

5.24 Arweiniodd llwybrau addysg-i-gyflogaeth strwythuredig a phartneriaethau allanol buddiol at gyfraddau cyflogaeth ar ôl rhyddhau uwch na'r targedau cenedlaethol, yn y ddau garchar. Yn CEF Prescoed, roedd hyn yn ganlyniad cadarnhaol 61% (o'i gymharu â tharged o 50%) ac yn CEF Brynbuga roedd yn 15% (o'i gymharu â tharged o 7%). Yn ogystal, yn CEF Prescoed, roedd 28.5% o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn lleoliadau gwaith rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) adeg yr arolygiad. Roedd hyn yn ostyngiad ers yr arolygiad diwethaf. Yn rhy aml, roedd carcharorion yn teimlo'n rhwystredig gydag amseroedd aros hir i gael ROTL (gweler paragraff 6.16).

5.25 Cafodd rhaglenni addysg fewnbwn strwythuredig heb ei ddatblygu'n ddigonol ar bynciau diogelu fel 'Atal', meithrin perthynas amhriodol a radicaleiddio. Nid oedd arweinwyr yn gwbl ymwybodol o gynnwys y sesiynau a ddarparwyd gan y tîm seicoleg yn unol â chyfyngiadau dedfrydau, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i sicrhau bod y pynciau

pwysig hyn yn cael sylw priodol. Ar ben hynny, nid oedd darpariaeth i gefnogi datblygu sgiliau byw'n annibynnol ar gael yn gyson ar draws y carchardai, a oedd weithiau'n gadael dysgwyr yn teimlo nad oeddent wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer bywyd ar ôl cael eu rhyddhau.

5.26 Roedd y carchardai'n darparu cymorth ailsefydlu effeithiol drwy lwybrau addysg a gwaith pwrpasol a oedd yn cysylltu'n glir â'u cynlluniau dedfrydu a'u nodau ar gyfer y dyfodol, drwy'r hyb cyflogadwyedd. Roedd staff efo dulliau cyfeirio clir at y swyddi gwag a oedd ar gael. Roedd mynediad at gymwysterau galwedigaethol, lleoliadau ROTL a mewnbwn asiantaethau allanol yn helpu i'w paratoi'n hyderus ar gyfer rhyddhau a chyflogaeth. Roedd y carchardai wedi rhoi proses werthfawr ar waith ar gyfer pwyso a mesur anghenion ailsefydlu dysgwr, er mwyn sicrhau bod cymorth ar gyfer rhyddhau yn cael ei dargedu at yr unigolyn. Fodd bynnag, gan fod cyngor gyrfaoedd wedi'i gyfyngu i 12 mis olaf dedfryd, credai ychydig o ddysgwyr mwy abl, neu'r rhai â dedfrydau hirach, nad oedd ganddynt ddigon o arweiniad i gynllunio ar gyfer cyflogaeth neu astudiaeth bellach.

5.27 Roedd y gefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf iawn, gydag addasiadau'n cael eu gwneud beth bynnag fo'r diagnosis ffurfiol. Roedd llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth un-i-un a oedd ar gael, adnoddau hygyrch fel troshaenau lliw a'r cyfle i ddysgu mewn amgylcheddau tawel.

5.28 Roedd dysgwyr yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â rolau arwain, fel mentoriaid cymheiriaid, arwain sesiynau neu gynnal gwiriadau nos ar y fferm. Roedd y cyfleoedd hyn yn cefnogi ymdeimlad o gyfrifoldeb ac ymddiriedaeth. Mynegodd llawer o ddysgwyr hyder yn eu cynnydd ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffyrdd yr oedd eu barn yn cael ei chlywed.

5.29 Roedd y staff addysgu yn ymfalchïo yn eu perthnasoedd a'u hymatebolrwydd. Roedd ymrwymiad y tîm i les a chynhwysiant dysgwyr yn gryfder nodedig.

### Sbotolau: Tîm Niwroamrywiaeth

Roedd y tîm niwroamrywiaeth wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hyrwyddo addysg gynhwysol ar draws y ddau garchar. Roedd eu model ymyriadau cynnar yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth pwrpasol o'r cyfnod sefydlu hyd at barôl. Roedd yr wybodaeth o asesiadau wrth gyrraedd yn caniatáu i staff ddatblygu cynlluniau dysgu personol defnyddiol gyda chymorth pasbortau dysgwyr, cyfweliadau un-i-un a mewnbwn gan y rheolwyr niwroamrywiaeth. Roedd offer ymarferol fel ysgrifbinnau darllen, troshaenau, pinnau ffelt sy'n ystyriol o ddyspracsia a mannau synhwyraidd ar gael yn rhwydd, gan alluogi dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan. Roedd cyfraniad y tîm ar gamau allweddol, gan gynnwys cynllunio dedfrydau, cyfarfodydd adolygu a byrddau parôl, yn helpu dysgwyr i deimlo eu bod yn cael eu deall a'u grymuso. Roedd hyfforddiant staff dan arweiniad y tîm niwroamrywiaeth wedi cynyddu hyder a sgiliau addysgwyr, gan alluogi amgylcheddau ystafell ddosbarth mwy ymatebol. O ganlyniad, nododd dysgwyr fwy o ymdeimlad o berthyn, llai o bryder ac ymrwymiad cryfach i'w taith addysgol. Cyfrannodd y cymorth integredig hefyd at ganlyniadau mwy cadarnhaol o ran ymddygiad, ymgysylltu a chynnydd. Mewn system lle'r oedd llawer wedi teimlo eu bod ar y cyrion o'r blaen, roedd y cymorth cynhwysol a rhagweithiol hwn yn helpu dysgwyr niwrowahanol i fagu hyder, meithrin gwytnwch a llwyddo ar eu telerau eu hunain. Roedd mentrau ehangach y carchar yn y maes hwn yn cynnwys gweithgareddau grŵp buddiol a oedd yn cefnogi carcharorion i deimlo'n ddiogel a symud i addysg, er enghraifft drwy ioga carchar, ymarfer corff niwroamrywiol a sesiynau crefft.

### Arwain a gwella

5.30 Roedd arweinwyr ar draws CEF Brynbuga a CEF Prescoed wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer addysg, hyfforddiant a gwaith. Buont yn gweithio'n ddiwyd tuag at sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i garcharorion. Roedd ganddynt ddisgwyliadau uchel o staff ac roeddent wedi meithrin ethos tîm cryf. Gweithiodd staff yn effeithiol i sicrhau agweddau cryf tuag at ddysgu a hyfforddiant yn gyffredinol, ac ymgysylltiad â nhw, ar draws y ddau garchar.

5.31 Ar draws y ddau garchar, roedd y cwricwlwm a gynigiwyd yn eang ac yn rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth am y farchnad lafur. Roedd sgiliau ac achrediadau cyflogadwyedd wedi'u gwreiddio'n ystyrlon mewn gweithgareddau galwedigaethol lle bo hynny'n briodol. Hwyluswyd dysgu ar gyrsiau'r Brifysgol Agored ac Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion yn effeithiol, gan alluogi ychydig o ddysgwyr lefel uwch i gwblhau TGAU, Safon Uwch a graddau. Cynigiwyd cyfleoedd dysgu Cymraeg gwerthfawr i garcharorion a staff yn y ddau garchar, gan weithio gyda'i gilydd tuag at gymwysterau.

5.32 Yn CEF Brynbuga, roedd y ddarpariaeth yn amrywiol, ac yn diwallu anghenion datblygiad galwedigaethol, academaidd a phersonol llawer o ddysgwyr yn dda. Roedd yn darparu'n dda ar gyfer dysgwyr â gwahanol fannau cychwyn, gan gynnwys y rheini â diffygion sgiliau a

dysgwyr uwch. Roedd darpariaeth gref i gefnogi anghenion datblygu personol dysgwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr a oedd yn niwroamrywiol. Roedd darpariaeth werthfawr ar gyfer datblygu sgiliau darllen dysgwyr a'u mwynhad o ddarllen, er enghraifft drwy glybiau llyfrau a gweithdy drama. Roedd darpariaeth werthfawr i ddathlu diwylliant Cymru.

5.33 Yn CEF Brynbuga, mewn rhai achosion, nid oedd dysgwyr yn elwa o fynediad at ddysgu neu achrediad galwedigaethol lefel uwch, na chymorth i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol. Roedd llythrennedd a rhifedd wedi'u gwreiddio'n anghyson mewn meysydd galwedigaethol. Ar ben hynny, nid oedd y cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau digidol ehangach yn ddiogel wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd y strwythur staffio darbodus yn golygu nad oedd llawer o gapasiti i wella'r ddarpariaeth ac roedd perygl i'w barhad.

5.34 Roedd y cwricwlwm yn CEF Prescoed yn canolbwyntio'n gryf ar ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau galwedigaethol, sicrhau achrediadau ystyrlon a pharatoi dysgwyr i gael eu rhyddhau ar drwydded dros dro. Roedd sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi'u gwreiddio'n addas mewn dysgu galwedigaethol. Roedd darpariaeth arbennig o arloesol a oedd yn cefnogi gwasanaethau yn yr ystâd sefydliadau diogel ehangach, yn ogystal â darparu cyfleoedd gwerthfawr yn y gwaith. Roedd cyfleuster hyfforddi'r fferm yn gryfder nodedig, gan ddefnyddio technoleg o'r radd flaenaf i ddarparu amgylchedd hyfforddi cryf i ddysgwyr sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, oherwydd bod carcharorion yn cael eu rhyddhau'n gynnar ac oedi wrth sicrhau cliriad ar gyfer ROTL mewn rhai achosion, roedd hyn yn llesteirio gallu rhai dysgwyr i gael mynediad at gamau rhyddhau ar drwydded dros dro. Ar ben hynny, nid oedd digon o ddarpariaeth ar gyfer darllenwyr sy'n dod i'r amlwg a darllenwyr nad ydynt yn darllen.

5.35 Casglodd arweinwyr amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol fuddiol i lywio eu hunanwerthusiad. Er enghraifft, roedd teithiau cerdded dysgu ac arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n briodol ar ymgysylltu â dysgwyr, adnoddau a'r amgylchedd dysgu. Cafodd hyn ei lywio ymhellach gan ddadansoddiad data, gan gynnwys ynghylch llwyddiant gwahanol grwpiau o ddysgwyr ac anghenion presennol dysgwyr. Amrywiol oedd ansawdd a phrydlondeb y gwerthusiad hwn. Roedd arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i farn dysgwyr fel rhan o'r broses hon, er enghraifft drwy weithgareddau grŵp gyda mentoriaid cymheiriaid. Roedd arweinwyr hefyd wedi ystyried adborth staff yn ystod y prosesau hyn, er bod hyn wedi cael ei gwblhau'n anffurfiol, ac o ganlyniad nid oedd staff bob amser yn deall eu mewnbwn i brosesau hunanwerthuso. Yn gyffredinol, roedd dull gweithredu anghyson ar gyfer hunanwerthuso ar draws y ddau garchar ac, o ganlyniad, collwyd cyfleoedd ar gyfer gweithio cydgysylltiedig a rhannu arferion gorau yn y maes hwn.

5.36 Roedd arweinwyr wedi datblygu cynllun datblygu ansawdd uchelgeisiol i sbarduno gwelliannau yn y carchar. Roedd y cynllun wedi'i lywio'n briodol gan hunanwerthusiad ac roedd ganddo amserlenni clir ar gyfer

gwella a dyrannu cyfrifoldeb, ac roedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y cynllun yn cynnwys nifer fawr o gamau gweithredu a oedd yn llesteirio gallu arweinwyr i ganolbwyntio'n llawn ar flaenoriaethau gwella strategol.

5.37 Roedd arweinwyr yn cwblhau amrywiaeth addas o weithgareddau sicrhau ansawdd rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn gwerthuso effaith addysgu ar ddysgu yn gyson.

5.38 Roedd arweinwyr wedi datblygu tîm staff ymroddedig a oedd yn meddu ar y sgiliau priodol ar gyfer eu rolau. Daethant ag amrywiaeth o brofiadau i'r carchar, gan gynnwys ym maes addysg a'r system garchardai, yn ogystal â phrofiad diweddar mewn diwydiant. Roedd y staff wedi elwa o ystod addas o gyfleoedd dysgu proffesiynol i fodloni cynlluniau cyflwyno'r cwricwlwm. Ar ben hynny, roedd enghreifftiau cadarnhaol o ymweliadau wedi'u targedu â charchardai eraill i arsylwi arnynt a rhannu arferion gorau. Fodd bynnag, nid oedd dull systematig clir o gynllunio ar gyfer dysgu proffesiynol ar lefel unigol neu ar draws y carchar, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu a dysgu.

5.39 Yn gyffredinol, roedd arweinwyr addysg, hyfforddiant a gwaith wedi sicrhau ymgysylltiad cryf gan garcharorion â'r ddarpariaeth ddysgu a hyfforddi a oedd ar gael. Roedd trefn a gweithdrefnau ehangach y carchar, fel y polisi cymhellion, yn rhoi pwyslais priodol ar ymgysylltu'n gadarnhaol ag addysg, hyfforddiant a gwaith yn ei strwythurau gwobrwyo. Er bod ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a gwaith yn gryf, nid oedd rhai carcharorion yn cael eu dyrannu i'w llwybrau o'u dewis yn brydlon.

5.40 Gweithiodd staff ym maes addysg a sgiliau yn dda gydag adrannau eraill y carchar ac, o ganlyniad, gweithiodd y rhan fwyaf o staff ar draws y carchar gyda’i gilydd tuag at weledigaeth ar y cyd o sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Buont hefyd yn gweithio'n dda gyda staff carchardai i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gref o anghenion niwrowahanol carcharorion a'r ffordd orau o'u cefnogi. Roedd cysylltiadau â chyflogwyr drwy'r bwrdd cynghori ar gyflogaeth a sefydliadau eraill yn gryf ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ehangu'r ddarpariaeth dysgu, hyfforddi a rhyddhau i garcharorion. Roedd hyn yn cefnogi'r ddau garchar i sicrhau canlyniadau cyflogaeth a chyflogadwyedd cryf i garcharorion.

# Adran 6 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

**Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

## Plant a theuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

> Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r carchar yn deall pwysigrwydd cysylltiadau teuluol ar gyfer ailsefydlu a lleihau'r risg o aildroseddu. Mae'r carchar yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyswllt carcharorion â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau magu plant a sgiliau perthynas. Mae carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu i gynnal cefnogaeth deuluol.

6.1 Roedd cefnogaeth dda iawn i garcharorion gynnal cysylltiadau teuluol yn y ddau safle. Cafodd y darparwr gwasanaethau teulu, Waliau Anweledig, gefnogaeth gref gan y llywodraethwr ac uwch arweinwyr eraill y carchar, ac aeth ymhell y tu hwnt i delerau ei gontract. Ym mhob safle, roedd rheolwr carchar ymroddedig ac egnïol yn gyfrifol am gryfhau gwaith cysylltiadau teuluol. Roedd gan y ddau safle amrywiaeth eang a llawn dychymyg o ddiwrnodau ymweliadau teulu, ac roedd y ddwy dderbynfa ar gyfer ymwelwyr wedi cael eu gwneud yn fwy croesawgar, gyda gwybodaeth wedi'i chyflwyno'n briodol.

6.2 Dangosodd ein harolwg ymatebion arbennig o gadarnhaol i ddarpariaeth ymweliadau ym Mrynbuga. Dywedodd bron i hanner y carcharorion eu bod wedi cael mwy nag un ymweliad yn ystod y mis diwethaf (48% o'i gymharu â'r cymharydd 27%), ac roeddent yn yr un modd yn fwy cadarnhaol na'r cymaryddion ynghylch dechrau ymweliadau'n brydlon, agweddau staff a pha mor hawdd oedd hi i ymwelwyr gael mynediad i'r carchar. Roedd sesiynau 'ymweliad' misol rhwng cymheiriaid ar gyfer y rheini nad oeddent yn cael ymweliadau domestig wedi hen ennill eu plwyf ac yn boblogaidd, gydag 20 o garcharorion yn cymryd rhan bob tro. Roedd Prescoed yn darparu bwyd poeth ar ymweliadau, i deuluoedd a ffrindiau ei brynu.

6.3 Ym Mhrescoed, roedd arweinwyr wedi gwella ymhellach yr ystod eithriadol o gyfleusterau a gweithgareddau a oedd yn cael eu defnyddio yn ystod y diwrnodau teulu. Roedd adnoddau fel y fferm a'r cae chwaraeon, a oedd ar gael drwy fynd â'r teulu am dro drwy'r coed, yn cael eu defnyddio i'r eithaf.

6.4 Roedd fforymau teulu chwarterol ac arolygon ymwelwyr dwywaith y flwyddyn yn helpu arweinwyr i gadw mewn cysylltiad â newidiadau mewn anghenion, ac roeddent wedi dechrau rhai mentrau pwysig yn y ddau safle yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod a oedd yn cyfateb i noson rieni, lle'r oedd plentyn y carcharor yn mynd i'r carchar gyda'r athro. Roedd hyn yn cynnwys y tad ym mywyd ysgol ei blentyn, ar yr un pryd â helpu athrawon i ddysgu am gyd-destun y carchar a chefnogi plant yn well. Roedd Waliau Anweledig hefyd wedi sefydlu clinigau cyngor cyfreithiol teuluol am ddim, gan ddefnyddio cwmnïau cyfreithiol lleol.

6.5 Roedd cyfathrebu â theulu a ffrindiau yn gweithio'n dda ar draws y ddau safle, ac eithrio darpariaeth ffôn annigonol ym Mhrescoed. Roedd yn rhaid i garcharorion yno ddibynnu ar un ffôn mewn ardal gyhoeddus ar eu huned breswyl, a oedd yn aml mewn ardaloedd prysur, weithiau'n uniongyrchol dan seinydd annerch y cyhoedd. Nid oedd system drefnus i sicrhau bod pawb yn cael mynediad teg at ffôn eu huned, ac roedd hyn wedi achosi rhai dadleuon a thensiynau.

## Lleihau aildroseddu

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn cael cymorth i newid ymddygiad sy’n cyfrannu at droseddu. Mae staff yn helpu carcharorion i arddangos eu cynnydd.

6.6 O dan arweinyddiaeth y llywodraethwr ac ar sail strategaeth gynhwysfawr i leihau aildroseddu, roedd y ddau garchar yn canolbwyntio ar fod yn fannau adsefydlu. Roedd yr arweinwyr allweddol yn y ddwy uned rheoli troseddwyr (OMU) yn brofiadol ac yn ymroddedig, yn cydweithio ac yn uchel eu parch ymysg eu timau. Yn wahanol i'n harolygiad blaenorol ac i nifer o garchardai eraill, roedd yr OMU bron â chyrraedd eu llawn gryfder, gyda staff a oedd yn adnabod eu rolau'n dda ac yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Fe wnaethom edrych yn fanwl ar achosion 20 o garcharorion ar draws y ddau safle: roedd pob un yn teimlo bod eu carchar yn amgylchedd adsefydlu cadarnhaol.

6.7 Ym Mhrescoed, y dasg graidd oedd paratoi carcharorion mewn ffyrdd ymarferol i fyw bywyd cadarnhaol ac adeiladol ar ôl eu rhyddhau, gan wneud defnydd llawn o'r cyfleusterau ar y safle a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y gymuned. Er bu gostyngiad yn y nifer a oedd yn gweithio yn y gymuned (gweler paragraff 5.25), roedd staff Prescoed yn gweithio'n galed ar yr agweddau hynny a oedd o fewn eu rheolaeth. Roedd oedi yn aml yn deillio o broblemau wrth gwblhau archwiliadau cymunedol.

6.8 Yn ein harolwg o garcharorion ym Mrynbuga, dywedodd 71% fod staff a oedd yn eu cefnogi i gyflawni'r amcanion yn eu cynllun dedfrydu, yn erbyn y cymharydd o 53%. Roedd pawb a gyfwelwyd gennym yn adnabod eu rheolwr troseddwyr yn y carchar (POM, gweler Geirfa) ac yn eu canmol yn fawr. Roedd llawer o weithwyr allweddol (gweler yr

Eirfa) yn cysylltu'n dda â'r OMU, a disgrifiodd carcharorion eu POM yn gadarnhaol iawn (gweler hefyd baragraff 4.1).

6.9 Yn ein sampl o achosion, gallai'r rhan fwyaf o garcharorion ym Mhrescoed a phawb ym Mrynbuga enwi eu POM a siarad yn gadarnhaol amdanynt, tra bod pob un ond tri yn ein sampl o 20 wedi cael eu dyrannu i'w POM o fewn 24 awr i gyrraedd y carchar. Roedd cyswllt da rhwng y POM a charcharorion ym mhob achos bron. Roedd carcharorion yn dal i werthfawrogi sesiynau galw heibio'r OMU, bob wythnos ym Mhrescoed ac yn fisol ym Mrynbuga.

6.10 Yn ein sampl o achosion, roedd yr holl garcharorion ym Mrynbuga a'r rhan fwyaf o'r rheini ym Mhrescoed wedi cael asesiad OASys (system asesu troseddwyr) yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn golygu nad oedd oedi gormodol o ran ail-gategoreiddio na chyfleoedd ROTL oherwydd bod asesiad risg wedi dyddio. Roedd hyn yn cynrychioli gwaith parhaus gan POM, gan fod mwy o garcharorion bellach wedi cyrraedd heb unrhyw OASys neu un wedi dyddio. Roedd ansawdd yr asesiadau, y cynlluniau dedfrydu a'r cynlluniau rheoli risg yn gyson well na'r hyn a welwn yn gyffredinol. Roedd y cynnydd a wnaed gan garcharorion o ran cyrraedd eu targedau yn dda ym Mrynbuga ac yn weddol dda ym Mhrescoed. Canfu rhai POM ym Mrynbuga amser ar gyfer gwaith un-i-un gydag unigolion. Ym Mhrescoed, roedd y pwysau a oedd yn gysylltiedig ag asesu risg ROTL a chynllunio ar gyfer rhyddhau yn gwneud hyn yn amhosibl.

6.11 Roedd cyfarfod cymorth misol ar gyfer y rheini a oedd yn bwrw dedfrydau amhenodol. Cafodd hyn ei hwyluso'n dda gan ddau swyddog, gydag amrywiaeth o siaradwyr mewn swyddi uwch a allai gynnig gwybodaeth ddefnyddiol. Roedd rhai yn bwrw dedfrydau amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP), ac roedd gan bob un lwybr i symud ymlaen tuag at barôl bosibl.

## Diogelu’r cyhoedd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae risg carcharorion o achosi niwed difrifol i eraill yn cael ei rheoli’n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau ymddygiad risg uchel o niwed.

6.12 Roedd rheolwyr a staff profiadol a galluog yn delio â sgrinio amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol, ac yn sicrhau bod cyfyngiadau cyswllt â phlant yn cael eu dilyn yn llym. Erbyn hyn, roedd cyfarfodydd rheoli risg rhyngadrannol (IRMT) yn y ddau garchar, yn ogystal â chyfarfodydd amlddisgyblaethol ad hoc i ystyried, er enghraifft, a ddylid dychwelyd unigolyn i amodau caeedig o Brescoed.

6.13 Roedd goruchwyliaeth dda o fonitro cyfathrebiadau carcharorion er mwyn diogelu'r cyhoedd. Roedd rhai carcharorion yn cael eu monitro dros y ffôn ar sail eu trosedd neu gudd-wybodaeth am eu hymddygiad, ac roedd hyn yn cael ei wneud yn effeithiol.

6.14 Roedd staff yr Uned yn cymryd rhan lawn mewn prosesau rheoli risg cyn rhyddhau, gyda phresenoldeb ar-lein mewn cyfarfodydd trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) ar gyfer y rhai ar y lefelau risg uwch. Roedd cyfraniadau ysgrifenedig i gyfarfodydd MAPPA yn dda, gan roi disgrifiad trylwyr a dadansoddol o broffil risg pob carcharor. Ym Mrynbuga, cafodd y rhain eu hategu gan amrywiaeth o ddeunydd defnyddiol, gan gynnwys adroddiadau gan y gweithiwr allweddol, diogelwch, gofal iechyd, y timau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, a seicoleg.

## Ymyriadau a chymorth

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn gallu cael gafael ar gymorth ac ymyriadau sydd wedi'u dylunio i leihau aildroseddu a hyrwyddo ailsefydlu effeithiol.

6.15 Ym Mrynbuga, roedd gan y gwasanaeth seicoleg nifer dda o staff ac roedd yn weithgar iawn. Cyflwynwyd y rhaglenni achrededig Horizon (ar gyfer troseddwyr rhyw), Kaizen (ar gyfer carcharorion risg uchel neu risg uchel iawn), Creu Fi Newydd +, a'r Rhaglen Rhyw Iach. Soniodd llawer o'r carcharorion a oedd yn mynd drwy'r cyrsiau hyn, neu a oedd wedi graddio ohonynt, am eu dwyster, y gofynion a wnaethant, a'r dysgu a'r newid personol a oedd yn gysylltiedig. Mynegasant hefyd eu gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth gyson yr oedd hwyluswyr wedi'i rhoi iddynt yn bersonol. Yn ogystal â'r rhaglenni achrededig, roedd seicolegwyr yn ymwneud â chefnogi'r gwaith o reoli carcharorion o ddydd i ddydd, wrth hyfforddi staff ac mewn ymchwil ymarferol.

6.16 Ym Mhrescoed, roedd llawer o garcharorion yn rhwystredig am eu bod yn gorfod aros yn hir am gymeradwyaeth i'w cais ROTL. Nid oedd 16 wythnos yn anarferol, ac mewn sampl o achosion diweddar, cymerodd chwarter fwy o amser na hyn (roedd y cyfartaledd ar gyfer ein sampl ychydig o dan 15 wythnos). Ymdrechodd staff a rheolwyr yr OMU i gyflymu'r broses ac i strwythuro disgwyliadau carcharorion, ond, yn yr un modd â charchardai agored eraill, roeddent yn canfod oedi parhaus wrth ymateb i geisiadau i'r gwasanaeth prawf a/neu'r heddlu am gymeradwyo cyfeiriadau rhyddhau. Her ddiweddar arall oedd y trosiant mawr o garcharorion oherwydd y mesurau cenedlaethol i leihau'r boblogaeth, yn enwedig rhyddhau carcharorion ar ddedfrydau penodol safonol yn gynnar, a chyflwyno cymhwysedd ar gyfer cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC). Roedd 40 o garcharorion eraill i fod i gael eu rhyddhau o dan y newid diweddaraf i HDC. Un anhawster ychwanegol, yn yr un modd â charchardai agored eraill, oedd nifer y carcharorion sydd bellach yn cyrraedd gyda chyfnodau cymharol fyr i'w bwrw o hyd.

6.17 Roedd canran poblogaeth Prescoed a oedd yn gweithio yn y gymuned, 28.5%, wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf (gweler paragraff 5.25). Adeg yr arolygiad, roedd 48.6% o garcharorion yn cael ROTL, ar gyfer cyswllt teuluol neu ar gyfer gwaith yn y gymuned, sy'n ostyngiad o'r 60% yn yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau cyflogaeth ar ôl rhyddhau o Brescoed yn gymharol dda (gweler

paragraff 5.40). Roedd ffigurau'r HMPPS yn dangos bod 61% o'r rhai a ryddhawyd wedi mynd i gyflogaeth yn y flwyddyn gyfredol, a bod 71% mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl cael eu rhyddhau, ffigurau a oedd yn rhagori ar y targedau a osodwyd gan y Gwasanaeth Carchardai.

6.18 Roedd y ddau garchar yn darparu cymorth i ddiwallu anghenion carcharorion o ran cyllid, budd-daliadau a dyled: roedd llawer wedi agor cyfrifon banc gyda Halifax; cyrchwyd 200 o ddogfennau adnabod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; a chafwyd cyngor arbenigol ar ddyledion gan Gristnogion yn Erbyn Tlodi, yr oedd eu gweithiwr yn ymweld â'r ddau garchar yn rheolaidd. Bu aelod llawn amser o staff yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn helpu carcharorion gyda cheisiadau am gredyd cynhwysol ac agweddau eraill ar baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau.

## Dychwelyd i'r gymuned

Canlyniadau disgwyliedig: Mae anghenion ailintegreiddio penodol carcharorion yn cael eu diwallu drwy waith amlasiantaethol da i gynyddu'r tebygolrwydd o ailsefydlu'n llwyddiannus ar ôl rhyddhau.

6.19 Roedd y gefnogaeth cyn-rhyddhau yn dda yn y ddau garchar. Mynychodd pob carcharor adolygiad amlddisgyblaethol ddau i dri mis cyn eu rhyddhau. Mynychodd staff o'r DWP, Ymddiriedolaeth Forward a Gyrfa Cymru y cyfarfodydd hyn, a gynhaliwyd yn fisol ym Mrynbuga ac yn wythnosol ym Mhrescoed. Roedd staff OMU â'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau presennol i'r cyrffyw cyfyngu i'r cartref; yn 2025 hyd yma, roedd tua 87% o garcharorion wedi cael eu rhyddhau o fewn saith diwrnod i'w dyddiad cymhwysedd ar gyfer HDC.

6.20 Er bod mynediad at dai ar ôl rhyddhau yn dod yn fwy anodd, roedd canlyniadau llety cadarnhaol ar gyfer y noson gyntaf ar ôl rhyddhau ymhell dros 90% yn y ddau garchar. Darparodd Ymddiriedolaeth Forward wasanaeth ymatebol i helpu carcharorion i ddod o hyd i lety, a gweithiodd ymarferydd ailsefydlu'r Gwasanaeth Prawf yn agos gyda nhw.

6.21 Cafodd anghenion ymarferol ar y diwrnod rhyddhau eu nodi ymlaen llaw gan bob carcharor, ac roedd dillad ar gael o'r siop elusen ar y safle neu stoc fach o ddillad glân yn y dderbynfa. Roedd nwyddau ymolchi (a roddwyd gan Undeb y Mamau), gwefru ffonau a lifft i ganolfan drafnidiaeth ar gael i'r rheini a oedd eu hangen.

# Adran 7 Cynnydd ar argymhellion yr adroddiad arolygu llawn diwethaf

## Argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad llawn diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaed, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach.

## Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2021, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn erbyn y prawf carchar iach hwn yn dda ym Mrynbuga a Phrescoed.

### Argymhellion

Dylai pawb sy'n cyrraedd o'r newydd allu gwneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf.
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dim ond ar sail cudd-wybodaeth neu amheuaeth benodol y dylid diosg-chwilio carcharorion.
**Cyflawnwyd**

Dylai cyfarfodydd rheoli diogelwch gael eu hintegreiddio'n llawn i'r ddau garchar a dylai fod ganddynt gynllun gweithredu effeithiol i sbarduno gwelliant parhaus.
**Cyflawnwyd**

## Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2021, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn erbyn y prawf carchar iach hwn yn dda ym Mrynbuga a Phrescoed.

### Argymhellion allweddol

Dim ond yn dilyn adolygiad priodol o ail-gategoreiddio sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r holl amgylchiadau, y dylid dychwelyd carcharorion i amodau caeedig, ac sy'n sicrhau bod y penderfyniad bob amser yn ymateb cymesur.
**Cyflawnwyd**

Dylid cynnwys mwy o fferyllwyr i oruchwylio safonau proffesiynol, protocolau a gweithdrefnau'r gwasanaeth i sicrhau bod y cyflenwad o feddyginiaethau'n ddiogel.
**Cyflawnwyd**

**Argymhellion**

Ni ddylid cadw carcharorion mewn celloedd aml-breswyliaeth sy'n rhy fach iddynt gael digon o le personol, dodrefn a phreifatrwydd.
**Heb ei gyflawni**

Dylid cynnig mynediad cynnar i amrywiaeth o nwyddau bwyd i garcharorion sydd newydd gyrraedd Prescoed nes iddynt gael eu harcheb siop lawn gyntaf.
**Cyflawnwyd**

Dylai arweinwyr a rheolwyr gynnwys y camau gweithredu a godir mewn fforymau nodweddion gwarchodedig a chyfarfodydd pwyllgorau cydraddoldeb mewn cynllun gweithredu cydraddoldeb.
**Cyflawnwyd**

Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod ystafell aml-ffydd sy'n addas ar gyfer ymarfer ffydd ar gael, a darparu cefnogaeth un-i-un.
**Cyflawnwyd**

Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod fforymau ffydd yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion sydd â phryderon sy'n ymwneud â ffydd.
**Cyflawnwyd**

## Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2021, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn erbyn y prawf carchar iach hwn yn eithaf da ym Mrynbuga a Phrescoed.

**Argymhellion**

Dylai arweinwyr sicrhau bod llyfrgellwyr ar y ddau safle i roi cymorth i garcharorion sy'n gweithio yno, gan sicrhau bod y stociau'n cael eu hailgyflenwi ac adfer cysylltiadau â llyfrgell Sir Fynwy.
**Cyflawnwyd**

Dylai arweinwyr lenwi swyddi gwag hyfforddwyr Addysg Gorfforol a rhoi mwy o fynediad i bob carcharor i'r gampfa.
**Cyflawnwyd**

Dylai rheolwyr wella mynediad carcharorion at adnoddau dysgu a rhyngweithiol sy'n seiliedig ar TG er mwyn cryfhau eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

**Cyflawnwyd**

Dylid cryfhau cydymffurfiaeth y carchar â'i strategaeth y Gymraeg ymhellach.
**Cyflawnwyd**

## Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

**Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2021, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn erbyn y prawf carchar iach hwn yn eithaf da ym Mrynbuga ac yn dda ym Mhrescoed.

**Argymhellion**

Dylai arweinwyr sicrhau bod carcharorion yn gallu gwneud galwadau ffôn yn breifat.
**Heb ei gyflawni**

Dylid gosod teleffoni yn y celloedd.
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai arweinwyr gynyddu mynediad at alwadau fideo diogel er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd carcharorion i gadw mewn cysylltiad â'u plant a'u teuluoedd.
**Cyflawnwyd**

Dylid cynyddu lefelau staffio rheolwyr troseddwyr prawf ym Mrynbuga yn ddigonol i ddarparu llwythi achosion hylaw sy'n cefnogi rheolaeth achosion effeithiol ar gynllunio a chynnydd o ran dedfrydau carcharorion.
**Cyflawnwyd**

Dylid sefydlu IRMT ym Mhrescoed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar y cyd a throsolwg o drefniadau rheoli risg ar waith ledled y carchar.
**Cyflawnwyd**

Dylid adolygu'r meini prawf ar gyfer derbyn carcharorion sydd ag euogfarnau rhywiol ym Mhrescoed i sicrhau bod carcharorion yn gallu symud ymlaen yn unol â'r bwriad.
**Cyflawnwyd**

# Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai dynion, y profion yw:

**Diogelwch**
Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.

**Parch**
Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.

**Gweithgarwch pwrpasol**
Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

**Paratoi ar gyfer ryddhau**
Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a chaiff eu risg o niwed ei rheoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly berfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posib: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF roi sylw iddynt.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.**

Does dim tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau carcharorion mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.**
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fach o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon mawr. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

**Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau carcharorion mewn sawl maes, neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn wael.**
Mae tystiolaeth bod yr ymarfer cyfredol yn effeithio'n ddifrifol ar ganlyniadau carcharorion. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy'n peri pryder.** Mae prif bryderon yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai y mae'r arolygwyr yn credu sy'n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a'r pryderon â blaenoriaeth eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno'r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon carcharorion a staff; trafodaethau â charcharorion; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys dilyn argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o garchardai yng Nghymru ar y cyd ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r pryderon â blaenoriaeth a'r prif bryderon yn dilyn yr arolygiad a'n barn am y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein disgwyliadau - *Expectations. Criteria for assessing the treatment of and conditions for men in prisons* (Fersiwn 6, 2023) (ar gael ar ein gwefan yn Expectations – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)). Mae Adran 7 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad o a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o garcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth yn y canlyniadau.

### Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

| | |
|---|---|
| Martin Lomas | Dirprwy Brif Arolygydd |
| Hindpal Singh Bhui | Arweinydd Tîm |
| Rachel Badman | Arolygydd |
| Martyn Griffiths | Arolygydd |
| Martin Kettle | Arolygydd |
| Dawn Mauldon | Arolygydd |
| Chelsey Pattison | Arolygydd |
| Fiona Shearlaw | Arolygydd |
| Tareek Deacon | Ymchwilydd |
| Phoebe Dobson | Ymchwilydd |
| Alicia Grassom | Ymchwilydd |
| Adeoluwa Okufuwa | Ymchwilydd |
| Helen Ranns | Ymchwilydd |
| Joe Simmonds | Ymchwilydd |
| Shaun Thomson | Prif arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Sarah Campbell | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Craig Whitelock-Wainwright | Arolygydd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol |
| Mark Cull | Arolygydd Iechyd yng Nghymru |
| Dr Ali Jahanfar | Arolygydd Iechyd yng Nghymru |
| Rachel Hackling | Arolygydd sy'n Adrodd i Estyn |
| Manta Arnott | Dirprwy Arolygydd sy'n Adrodd i Estyn |
| Ian Dickson | Arolygydd Estyn |
| Mary Hughes | Arolygydd Estyn |
| Matthew Williams | Arolygydd Estyn |

# Atodiad II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws.

**Llety arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol**
CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl le byw ardystiedig mewn sefydliad, ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, fel celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg ddifrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i gynnal y gyfundrefn a gynlluniwyd yn briodol.

**Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**
Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

**Diwrnodau teulu**
Mae llawer o garchardai yn trefnu 'diwrnodau teulu' drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag ymweliadau arferol. Mae'r rhain fel arfer yn agored i bob carcharor sydd â phlant bach, wyrion, neu berthnasau ifanc eraill.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau i dynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella.

**Cynllun gweithiwr allweddol**
Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol â charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif at lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**MAPPA**

Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: y set o drefniadau y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai yn eu defnyddio i weithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan droseddwyr treisgar, rhywiol a therfysgol sy'n byw yn y gymuned, er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

**Profion cyffuriau gorfodol (MDT)**
Mae'n galluogi swyddogion carchar i fynnu bod carcharor yn darparu sampl wrin i benderfynu a yw wedi defnyddio cyffuriau.

**Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC)**
Mae'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC), sydd wedi cael ei gyflwyno ar draws yr ystâd carchardai oedolion cyfan, yn golygu bod swyddogion carchar yn cynnal sesiynau gwaith allweddol gyda charcharorion (a roddwyd ar waith yn ystod 2018-19) ac yn rheoli achosion, a sefydlodd rôl rheolwr troseddwyr y carchar (POM) o 1 Hydref 2019 ymlaen. Ar 31 Mawrth 2021, cafodd model OMiC penodol ar gyfer carchardai agored i ddynion, nad yw'n cynnwys gwaith allweddol, ei gyflwyno.

**Nodweddion gwarchodedig**
Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

**Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl**
Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn:
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- sydd yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg o gam-drin ac esgeuluso, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

**Galwadau fideo diogel**
System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn lawrlwytho ap i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lanlwytho ID dilys.

**Pecyn gofal cymdeithasol**
Lefel o ofal personol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (hynny yw, cymorth gydag ymolchi, mynd i'r bath/cawod, mynd i'r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ayb, ond nid gofal meddygol).

**Amser allan o'r gell**
Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

# Atodiad III    Rhagor o adnoddau

Mae rhai adnoddau eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â’r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau wedi’u hargraffu a ddosberthir i’r carchar). Dyma’r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:

## Proffil poblogaeth carchardai

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o’r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi’r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

## Methodoleg a chanlyniadau’r arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o’r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae’r canlyniadau’n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy’n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a’r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau’r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â’r adroddiad ar ein gwefan.

## Arolwg staff carchardai

Gwahoddir staff y carchar i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â’r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2025

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho yn: [Our reports – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)]

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EF
Trydydd Llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.